# Cynllun Bro Llandysul

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU



Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cynllun Bro Llandysul
# Cynnwys


Rhagair

Prosiectau Allweddol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Trosolwg
- 1.2 Ynghylch Llandysul
- 1.3 Data Allweddol ar gyfer Llandysul
- 1.4 Byd wedi'i Newid gan Covid-19

2. Cynllun Bro

- 2.1 Cyd-destun
  - 2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill
  - 2.1.2 Cyswllt â Pholisi
  - 2.1.3 Themâu Cynllun Bro Ceredigion
  - 2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant
  - 2.1.5 Diben a Budd y Cynllun
- 2.2 Dull
  - 2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro
  - 2.2.2 Gweithredu Cymunedol
  - 2.2.3 Adborth y Gymuned
  - 2.2.4 Ymatebion

3.Gweledigaeth

- 3.1 Gweledigaeth a Strategaeth
- 3.2 Pwyntiau Ffocws
- 3.3 Blaenoriaethau

4. Themâu ac Amcanion

- 4.1 Themâu sy'n Dod i'r Amlwg
- 4.2 Llesiant
  - 4.2.1 Trosolwg
  - 4.2.2 Llesiant yn Llandysul
  - 4.2.3 Iechyd a Llesiant
  - 4.2.4 Teithio Cynaliadwy a Hygyrchedd
  - 4.2.5 Cymuned a Thwristiaeth
  - 4.2.6 Camau Gweithredu
  - 4.2.7 Polisïau Llesiant a Chysylltiadau
- 4.3 Creu Lleoedd
  - 4.3.1 Trosolwg
  - 4.3.2 Gwelliannau i'r Stryd Fawr a Gwell Ffryntiadau
  - 4.3.3 Cyfleoedd Datblygu
    - 4.3.3.1 Datblygiad Tai
    - 4.3.3.2 Datblygiad Economaidd
    - 4.3.3.3 Safleoedd datblygu Posibl
  - 4.3.4 Camau Gweithredu
  - 4.3.5 Polisïau Creu Lleoedd a Chysylltiadau
- 4.4 Treftadaeth a Diwylliant
  - 4.4.1 Trosolwg
  - 4.4.2 Diwylliant Hanesyddol a Threftadaeth Bensaernïol
  - 4.4.3 Camau Gweithredu
  - 4.4.4 Polisïau Treftadaeth a Diwylliant a Chysylltiadau
- 4.5 Yr Economi
  - 4.5.1 Trosolwg
  - 4.5.2 Addysg
  - 4.5.3 Hyrwyddo a Rheoli
  - 4.5.4 Camau Gweithredu
  - 4.5.5 Polisïau'r Economi a Chysylltiadau
- 4.6 Yr Amgylchedd
  - 4.6.1 Trosolwg
  - 4.6.2 Gwella'r Amgylchedd Naturiol
  - 4.6.3 Llifogydd
  - 4.6.4 Seilwaith Gwyrdd
  - 4.6.5 Newid yn yr Hinsawdd
  - 4.6.6 Camau Gweithredu
  - 4.6.7 Polisïau'r Amgylchedd a Chysylltiadau
- 4.7 Crynodeb o'r Camau Gweithredu a'r Syniadau

# Cynllun Bro Llandysul
# Rhagair

Cafodd y Cynllun Bro ei lunio dros nifer o flynyddoedd, a oedd yn cynnwys blynyddoedd pandemig Covid-19. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar ac yn ddyledus i'r Cynghorydd Sir a Chymuned Keith Evans, y Cynghorydd Mike Hotson (y cyn Gadeirydd diwethaf) a'r Cynghorydd Andrew Howell am ymgymryd â'r rôl arweiniol o symud y Cynllun Bro yn ei flaen ac am drosglwyddo adroddiadau cynnydd i'r Cyngor Cymuned. Mae'r Cyngor wedi cynorthwyo'r broses trwy logi hwyluswyr i gynnal digwyddiadau ymgynghori a darparu cymorth clercol, pan oedd gofyn, i gynnal y digwyddiadau hyn.

Mae'r Cynllun Bro wedi bod yn ffordd dda o bwyso a mesur ein hadnoddau lleol a'r modd y gallwn lywio cyfeiriad a thwf ein cymuned yn y dyfodol, a hynny weithiau trwy ysgogi cwestiynau am faterion, a hefyd trwy gael barn sylfaenol am y ffordd y mae unigolion yn gweld ein cymuned yn datblygu. Cafodd yr holl waith da sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ei gyflawni o ganlyniad i'r berthynas waith dda sy'n bodoli rhwng y Cyngor Cymuned a'r Rhanddeiliaid.

Mae Llandysul Pont-tyweli Ymlaen (grŵp datblygu cymunedol) wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau help grwpiau i gefnogi'r broses hon. Mae'r ffaith bod nifer o'n Cynghorwyr etholedig hefyd yn Gyfarwyddwyr y grŵp datblygu cymunedol hwn wedi bod o fudd i ni. Sefydlodd y grŵp adran fusnes i drafod llawer o'r materion dybryd cyfredol, gan gynnwys effaith Covid-19 ar iechyd economaidd y dref. Mae wedi rhoi arweiniad mewn perthynas â materion trafnidiaeth gymunedol, ac wedi gweithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr ar faterion twristiaeth i ddadansoddi'r modd y gall twristiaeth fod o fudd i'r economi leol. Llandysul hefyd oedd y grŵp Croeso i Gerddwyr cyntaf yn y sir a, chan adeiladu ar hyn, mae grŵp wedi cael ei sefydlu i gefnogi'r gwaith o greu llwybr Teifi.

Edrychwn ymlaen yn fawr yn y Cyngor Cymuned at barhau â'r trefniadau partneriaeth hyn gyda llawer o'r rhanddeiliaid yn ein cymuned er mwyn hybu llesiant economaidd a diwylliannol ein cymuned.





Golygfeydd o Landysul

# Cynllun Bro Llandysul
# Prosiectau Allweddol

### Canolfan Awyr Agored

Prosiect tymor canolig

Mewn partneriaeth â manwerthwyr annibynnol a chwmnïau gweithgareddau, sefydlu cyfleuster hamdden awyr agored ar safle'r hen ysgol ar Teras Marmor.

### Gwelliannau i'r Stryd Fawr

Prosiect tymor canolig

Ailddefnyddio eiddo gwag ar y Stryd Fawr at ddefnydd cymysg.

### Safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt

Prosiect tymor canolig

Ehangu'r arlwy hamdden cyfredol a chreu parc newydd a chyfleusterau mannau agored, gan gynnwys rhandiroedd.

### Y Sgwâr Dinesig


Prosiect byrdymor

Ffurfio sgwâr tref sy'n cynnwys seddi, a lleoedd ar y safle ar gyfer siopau dros dro, marchnadoedd a digwyddiadau cymunedol eraill.

### Pontydd newydd

Prosiect hirdymor

Adeiladu pontydd i gerddwyr i greu llwybrau cerdded cylchol, gwell mynediad at lan yr afon, a chyswllt rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.





Golwg o Landysul o'r Dwyrain

### 1.1 Trosolwg

Mae Cynlluniau Bro yn galluogi cymunedau i ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio i lunio cynllun dan arweiniad y gymuned sy'n darparu manylion ar gyfer yr ardal leol, ac sy'n adlewyrchu ei hynodrwydd ac yn mynd i'r afael â materion penodol i'r gymuned honno.

Datblygwyd Cynllun Bro Llandysul gan y Cyngor Tref, a hynny ar y cyd â'r gymuned leol a Chyngor Sir Ceredigion, ac mae'n cynnig syniadau rhagorol ar gyfer newid cadarnhaol yn Llandysul a'r wardiau cyfagos.

### 1.2 Ynghylch Llandysul

Mae Llandysul yn dref hanesyddol sy'n swatio ar lan Afon Teifi, yr afon enwog am ei sewin a'i heogiaid, ac maen dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn y Normaniaid. Mae'n pontio ffin dau Awdurdod Lleol, gyda Phont-tyweli wedi'i leoli yn Awdurdod Unedol Sir Gaerfyrddin, a Llandysul yn Awdurdod Unedol Ceredigion. Gwasanaethir yr ardal gan dair ardal Cyngor Cymuned sy'n cydgyfarfod yn Llandysul, sef Llanfihangel a Llangeler yn Sir Gaerfyrddin a Llandysul yng Ngheredigion. Mae'n un o gadwyn o drefi marchnad sy'n rhedeg ar hyd Dyffryn Teifi, sef Aberteifi i'r de, yna Castellnewydd Emlyn, Llandysul, Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan, a Thregaron yn y gogledd, yn nharddiad Afon Teifi.

Mae'n dref farchnad draddodiadol, lle mae amaethyddiaeth yn parhau i chwarae rhan arwyddocaol yn economi'r ardal. Yn y gorffennol, roedd y gefnwlad yn gwneud defnydd mawr o'r afon gan ei bod yn llwybr masnachu ar gyfer y melinau gwlân, diwydiant a oedd yn un o gyflogwyr pennaf yr ardal. Yn hanesyddol, roedd y Pwerdy, sy'n ganolfan gelfyddydol a chymunedol ar hyn o bryd, yn cynhyrchu trydan o dyrbinau yn Afon Teifi i gyflenwi ardal Llandysul a Phont-tyweli.

Hyd at gyfnod Beeching, roedd rheilffordd yn gwasanaethu Llandysul, gan hwyluso'r gwaith o fewnforio ac allforio nwyddau. Ym mhen y lein, mewn man cyfleus, lleolwyd marchnad da byw i hyrwyddo'r cyfleoedd a ddaeth yn sgil y rheilffordd. Gwaetha'r modd, daeth y farchnad da byw i ben o ganlyniad i newid mewn arferion amaethyddol ac i wneud lle ar gyfer Ffordd Osgoi Llandysul, a oedd yn ffurfio rhan o gynllun ffordd gyswllt Ceredigion. Dros y blynyddoedd, yn y sector preifat a chyhoeddus fel ei gilydd, rydym wedi gweld dirywiad yn y gwasanaethau a ddarperir yn y dref, a thranc y pedwar prif fanc a arferai weithredu o'n Stryd Fawr. Rydym unwaith eto ar groesffordd ac yn wynebu heriau aruthrol o ran darpariaeth stryd fawr. Yn ddi-os, bydd yn rhaid i ni gynnig gwasanaethau a chynhyrchion na ellir dod o hyd iddynt yn hawdd mewn siopau y tu allan i drefi.

Mae'r iaith yn ffynnu o hyd yn yr ardal orllewinol hon o Gymru lle siaredir y Gymraeg yn bennaf, ac, yn rhanbarthol, mae iddi un o'r wardiau mwyaf Cymraeg ei hiaith yng Ngheredigion.

### 1.3 Data Allweddol ar gyfer Llandysul

Er mwyn gosod y cefndir ar gyfer ein tref, mae'n ddefnyddiol cydnabod ei phwysigrwydd rhanbarthol. Mae gwybodaeth bellach ac ystadegau allweddol yn cynnwys y canlynol:

Yn ôl cyfrifiad 2021, mae gan Landysul boblogaeth o 1,300 o gymharu â 1,439 yng nghyfrifiad 2011.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn rancio pob ardal fach yng Nghymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). Oddi ar 2019, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) Tref Llandysul yn safle 755 ac felly yn un o'r 30-50% LSOA mwyaf difreintiedig (StatsCymru).

Dioddefodd Ward Tref Llandysul, lle roedd 57% o'r boblogaeth yn rhugl yn y Gymraeg (2021, SYG), ostyngiad o 6.5% o ran rhuglder yn y Gymraeg oddi ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2019 (63.5%).

Nododd Arolwg Amwynderau Ceredigion, a gynhaliwyd yn 2019, bedwar man addoli yn Llandysul. Mae'r rhain yn cynnwys Capel Seion, Capel Unedol y Graig, Y Ffynnon ac un Eglwys Anglicanaidd, sef Eglwys Sant Tysul. Yn ôl yr arolwg, mae yna un neuadd bentref neu fan cyfarfod wedi ei leoli yn Llandysul. Mae Neuadd Tysul, a adeiladwyd yn 1955 yn gofeb i'r ddau Ryfel Byd, wedi'i lleoli ar Heol Newydd ac mae'n lleoliad ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.


### 1.4 Byd wedi'i Newid gan Covid-19

Mae COVID-19 nid yn unig wedi amharu ar ein bywydau bob dydd ac achosi llawer o dorcalon, ond mae hefyd wedi rhoi cyfle i ni ailosod y cloc a meddwl eto am y lleoedd yr ydym am fyw, gweithio a chwarae ynddynt. Mae angen i ni ailadeiladu cymdeithas wyrddach, lanach lle mae datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol yn ganolog iddi, gan barchu ein hamgylchedd a rhoi lleoedd da i bobl fyw ynddynt, lleoedd sy'n hygyrch ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hyn yr un mor wir am Landysul ag y mae ar gyfer Cymru gyfan.

Mae COVID-19 wedi bod yn ddylanwad ar newid mewn patrymau gwaith. Mae gan unigolion a gyflogir yn y sector cyhoeddus, ac sy'n meddu ar gapasiti band eang digonol i ddefnyddio'r rhaglenni sydd mewn defnydd gan eu cyflogwyr, fynediad at fodel gweithio hybrid yn aml. Yn ystod y pandemig, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth newydd a olygai  fod cyfarfodydd cynghorau cymuned yn hybrid eu natur.

Yn ystod yr un cyfnod, rydym wedi gweld newid sylweddol yn y farchnad eiddo. Ar adegau, roedd gwerthiannau tai yn mynd rhagddynt heb i bobl hyd yn oed ymweld â'r eiddo, a hynny oherwydd nifer yr unigolion a oedd yn adleoli o blaid lleoliad gwledig ac iddo ofod ac aer glân, a sir a oedd â'r nifer lleiaf o achosion o Covid-19. Mae hyn wedi camystumio prisiau eiddo, ac maent yn aml iawn y tu hwnt i'r hyn y gall ein cymuned leol ei fforddio.

Mae prynu'n lleol wedi cael cryn effaith ar gymdeithas trwy gydol y cyfnod hwn, ac mae hefyd wedi dylanwadu ar batrymau teithio, gyda llawer yn dewis cefnogi masnachwyr lleol. Yn ogystal, mae'r cynnydd enfawr yng nghostau tanwydd wedi gwaethygu'r sefyllfa trwy wneud teithio'n ddrutach. Mae hyn yn ei dro wedi cael effaith ar siopa am fwyd a siopa cyffredinol ar y Rhyngrwyd, gyda rhaogr o ddanfoniadau yn cael eu darparu gan asiantaethau dosbarthu.




Cynllun Bro Llandysul, 2024

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae Llandysul yn cynnwys dwy ward: De Llandysul, Gogledd Llandysul a Throedyraur.

Mae'r data ar y dudalen ganlynol yn seiliedig yn bennaf ar yr Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (ACEI) gyferbyn.

Allwedd:

Ward etholiadol





Allwedd:

Tref Llandysul (LSOA)


Afon Teifi

Priffordd





Cynllun Bro Llandysul, 2024


Poblogaeth




% Poblogaeth a Ddynododd Cymraeg yn Unig





% Grwpiau Oedran Poblogaeth yn Llandysul





Ffynhonnell y data: NOMIS, Cymru, 2021


Deiliadaeth Aelwydydd yn Llandysul





Y Gymraeg yn Llandysul





% Dadansoddiad o'r Galwedigaethau yn Llandysul





Ceir/Faniau fesul Aelwyd yn Llandysul




% Gweithgarwch Economaidd yn Llandysul




Ethnigrwydd yn Llandysul






Sesiwn ymgysylltu ar gyfer Strategaeth Adfywio
Llandysul, Tachwedd 2022

**2.1 Y Cyd-destun**

Mae Cynlluniau Bro yn ategu cynlluniau datblygu statudol sydd mewn bod ac yn mynd i'r afael â materion ar raddfa gymunedol, megis cynllunio cyfleusterau cymunedol a mannau agored. Maent yn gweithredu fel mecanwaith i gymunedau ymgysylltu mewn modd creadigol â'r broses gynllunio.

**2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill**


Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynllun ar gyfer eu hardal a elwir yn Gynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hwn yn nodi amcanion yr awdurdod mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn ei ardal, ynghyd â'i bolisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny.

Ym mis Ebrill 2013, mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn ffurfiol. O ganlyniad, rhaid i ddatblygiad arfaethedig gael ei ystyried yn unol â'r polisïau a geir yn y cynllun hwn. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cynlluniau Bro, sy'n ychwanegu manylion at y broses o gynllunio datblygu statudol, ac yn ymhelaethu ymhellach ar y cynnwys. Er bod Cynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol a all ddarparu cymorth i gyflawni'r gwaith, cânt eu paratoi i'r diben o ddod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn a arweinir gan y gymuned yn helpu i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol. Caiff Cynlluniau Bro eu llywio gan bolisi, ond maent hefyd yn cynnig cyfle i lywio a llunio strategaethau lleol a chenedlaethol tymor hwy.

**2.1.2 Cyswllt â Pholisi**

Mae pob prosiect a amlinellir yn y Cynllun Bro drafft yn bodloni'r ddyletswydd a bennir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef cyflawni'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' trwy'r pum ffordd o weithio: Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys, Hirdymor ac Atal.




Cyd-destun y Cynllun Bro o fewn polisi, deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio

Fel y nodir yn 'Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040', mae Llandysul yn ffurfio rhan o Ardal Twf Rhanbarthol Dyffryn Teifi, sy'n golygu y dylai gadw a gwella'r gwasanaethau masnachol a chyhoeddus sy'n gwneud yr anheddiad yn ganolbwynt i'r ardal. Mae pob un o'r prosiectau a nodir yn y Cynllun Bro yn cefnogi nodau Ardal Dwf Ranbarthol Cymru'r Dyfodol.

Mae pum egwyddor allweddol 'Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11' wedi cael eu hystyried yn rhan o'r broses ar gyfer llunio prosiectau Cynllun Bro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Hyrwyddo gwarchodaeth amgylcheddol a chyfyngu ar effaith amgylcheddol.

### 2.1.3 Themâu Cynllun Bro

Mae yna bum thema Cynllun Bro graidd sy'n darparu strwythur ac yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau a chamau gweithredu fod yn gyson â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tra bo cynnwys y Cynllun Bro hwn a'r set o is-themâu yn unigryw i Landysul, mae'r categorïau'n gyffredin ledled pob tref yng Ngheredigion. Mae pob un o'r themâu'n cael eu llywio gan ddeddfwriaeth, polisi, a dyheadau cymunedol. Mae'r disgrifyddion cefndir canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer strwythuro'r Cynllun Bro:

Llesiant:

Meddwl am effaith hirdymor penderfyniadau, a darparu cymorth i'r gymuned leol atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Nod y camau gweithredu hyn yw lleihau'r gwahaniaethau o fewn cymunedau a chreu amodau sy'n galluogi pobl i fyw a gweithio mewn lleoedd diogel, bywiog. Mae'r thema'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Creu Lleoedd:

Mabwysiadu agwedd gyfannol at gynllunio a dylunio gofodau. Mae creu lleoedd yn tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Dylai hyn arwain at ddatblygu gofodau nodedig a bywiog sy'n cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd. Mae'r thema'n ymateb i Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 ac mae'n ymgorffori gwerthoedd Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Treftadaeth a Diwylliant:

Diogelu'r dreftadaeth ranbarthol unigryw a'r asedau diwylliannol cyfoethog sy'n bresennol yn y dref. Nod y camau hyn yw datblygu'r cymeriad hanesyddol sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal ac i fyw ynddi. Mae'r thema'n cymhwyso egwyddorion cadwraeth ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o werth treftadaeth llawer o nodweddion hanesyddol lleol – rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Ceredigion. Mae'r thema'n cyd-fynd â'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth.

Yr Economi:

Datblygu rhaglen buddsoddiad mewn adfywio dargededig sy'n cynnal economi ffyniannus gynaliadwy. Mae hyn yn mynd i'r afael â heriau allweddol i gyflawni gweledigaeth o economi sy'n darparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer pawb sy'n dewis byw a gweithio yn y gymuned leol. Mae'r thema'n gysylltiedig â pholisi a chymorth adfywio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella canol trefi. Mae'r agwedd hon ar y Cynllun Bro yn cael ei llywio gan Strategaeth Adfywio Llandysul (2023), ynghyd â chonsensws cyffredinol ynghylch prosiectau ac ymyraethau allweddol sydd wedi llywio cymeradwyaeth y Cyngor Tref.

Yr Amgylchedd:

Creu cymunedau gwyrddach, cynaliadwy ac iddynt gysylltiadau da, sy'n cymryd camau i leihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r amgylchedd lleol a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r thema'n hyrwyddo amcanion sirol a chenedlaethol, yn ogystal â thargedau allyriadau carbon i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Caiff y thema ei llywio gan y cynllun seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer y dref a chyfleoedd allweddol yr hoffai'r Cyngor Tref eu symud yn eu blaen a'u blaenoriaethu.



Llyn artiffisial Llandysul Paddlers a ddefnyddir i addysgu a hyfforddi

# Themâu Cyffredin Ceredigion

## Llesiant

Hygyrchedd
Teithio llesol
Cymuned
Llwybrau beicio
Gofal iechyd
Iechyd a llesiant
Hamdden
Cyfleusterau cyhoeddus
Hamdden
Chwaraeon
Twristiaeth
Trafnidiaeth
Llwybrau cerdded

## Creu Lleoedd

Llety
Amgylchedd adeiledig
Gerddi cymunedol
Darpariaeth gymunedol
Cyfleoedd datblygu
Mannau gwyrdd
Gwelliannau i’r stryd fawr
Gwell ffryntiadau
Parcio
Cerddwyr
Hyrwyddo a rheoli
Arwyddion
Cymeriad y dref
Sgwâr y dref

## Treftadaeth a Diwylliant

Cymeriad pensaernïol
Treftadaeth bensaernïol
Cadwraeth
Diwylliant
Treftadaeth
Cyd-destun hanesyddol
Diwylliant hanesyddol
Y Gymraeg

## Yr Economi

Atyniadau
Cyrchfan
Yr economi
Addysg
Tirnodau
Busnesau lleol
Marchnata
Hyrwyddo
Twristiaeth

## Yr Amgylchedd

Mynediad
Newid yn yr hinsawdd
Llifogydd
Seilwaith gwyrdd
Tirwedd
Yr amgylchedd morol
Yr amgylchedd naturiol
Cynaliadwyedd
Teithio cynaliadwy

Themâu cyffredin ledled Cynlluniau Bro Ceredigion

**2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant**

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu Llesiant yn y gyfraith ac mae'r ddeddfwriaeth hon yn treiddio i lawr i bob prosiect a chynllun yng Nghymru. Mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y'u hamlinellir ar lefel leol yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023, wedi llywio datblygiad y Cynllun Bro hwn.

Er mwyn i unrhyw dref ei chynnal ei hun, rhaid i Gymru lewyrchus fod â chryn arwyddocâd. Mae ffyniant yn llywio'r economi, yn sbarduno, ac yn annog twf. Mae Llandysul wedi bod yn gymuned gydnerth a chydlynol erioed, felly mae'r teimladau a fynegir yn y ddogfen Cymru gydnerth yn atsain o fywyd bob dydd yn ein cymuned.

Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn nodwedd gref yng nghyfansoddiad ein cymuned. A ninnau ar ffin sirol dau Awdurdod Lleol a thri Chyngor Cymuned, rydym bob amser yn ymwybodol o'r angen i fod yn gynhwysol gan fod y dref yn gweithredu fel canolfan gwasanaethau, gyda'r darpariaethau hynny yn cynnwys iechyd, addysg, hamdden a gwasanaeth tân. O ran cyfle cyfartal mewn perthynas â'n defnydd o ieithoedd yn sefydliadau'r dref, rydym bob amser yn ymwybodol o'r angen i lunio llenyddiaeth ddwyieithog pan fo gofyn.


Mae iechyd yn cael ei rancio'n uchel hefyd – mae cymuned iach yn gymuned hapus. Mae ein cynrychiolwyr etholedig yn pledio ein hachos ar bob cyfle i sicrhau cydraddoldeb a'n bod yn gydradd â threfi eraill o ran y gwasanaethau a ddarperir. Gyda'r pwysau ar ein hadnoddau, a'r effaith y mae datblygiad, ar ei amrywiol ffurfiau, yn ei gael, rydym yn sicrhau ein bod yn ofalgar, ac yn cadw at bolisïau'r llywodraeth ar yr agweddau hyn.

**2.1.5 Diben a Budd y Cynllun**

Bellach, mae gan gymunedau Cymru fwy o gyfle nag erioed o'r blaen i lunio dyfodol y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae gan y Cynllun Bro y potensial i weithredu fel Grant Cynhyrchu Cynaliadwy dan arweiniad y gymuned ar gyfer yr awdurdod lleol, ac i gynorthwyo gyda phenderfyniadau a chynlluniau mewn perthynas â defnyddio a datblygu tir, a newidiadau a gwelliannau i wasanaethau lleol. Gall y ddogfen gynorthwyo i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol trwy nodi uchelgeisiau'r gymuned leol a denu cyllid i'w gwireddu.

Mae'r broses ymgynghori yn Llandysul wedi bod yn hirhoedlog, ac wedi arwain at beth syrffed ar ymgyngoriadau a'r awydd i weld prosiectau'n cael eu rhoi ar waith. Rydym yn sylweddoli yn y Cyngor Cymuned fod hon yn ddogfen a fydd yn fframio dyfodol ein cymuned am ddegawdau, a pham y mae'r broses hon, yn anochel, yn un hir.

Rydym felly wedi cynorthwyo llawer o grwpiau yn ein cymuned i gyflwyno prosiectau graddfa fach. Rydym ni, mewn partneriaeth ag eraill, wedi ceisio tanio rhywfaint o'r dychymyg hwn trwy brosiectau megis newid goleuadau Nadolig ein tref a gweithio gyda Cheredigion a Llandysul a Phont-tyweli Ymlaen i gyflawni'r fenter Tref Glyfar.




Y saith nod llesiant a nodir gan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'


**2.2 Dull**

Mae'r ymchwil gefndirol a ganlyn wedi llywio ein dull o baratoi Cynllun Bro y dref.

I ddechrau, bu'r Cyngor Cymuned yn ystyried gofynion creu Cynllun Bro, a rhoddodd gyfle i'w holl aelodau fod yn rhan weithredol o'r broses. Cynigiodd tri aelod eu hunain a, chyda chymeradwyaeth y Cyngor llawn, dechreuasant greu'r cynllun, gan weithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr a swyddogion y Cyngor Sir.

O'r cychwyn cyntaf, teimlwyd bod yn rhaid i'r broses fod yn dryloyw ac yn gynhwysol er mwyn iddi fod yn gredadwy. Ymgymerwyd â ffurfiau gwahanol ar ymgynghori, gan gynnwys holiaduron, cyfarfodydd cyhoeddus, trafodaethau un i un, dulliau sectoraidd, a digwyddiadau cymunedol, a sicrhawyd bod lleisiau pobl yn cael ystyriaeth eglur.

Mae nifer o faterion hirsefydlog a fynegwyd wedi methu dwyn ffrwyth o ganlyniad i broblemau megis cyfyngiadau ariannol a diffyg argaeledd amser gwirfoddolwyr i lenwi ceisiadau. Mae yna ysbryd cydweithio yn bodoli i hyrwyddo dyheadau ein cymunedau yng Ngheredigion. O dan arweiniad lleol aelodau etholedig y Cyngor Cymuned, trefnwyd cwrs i greu cynllun, a hynny gyda chymorth ymgynghorwyr a swyddogion y Cyngor Sir.






1890au

1950au

1970au


2022

Twf anheddiad Llandysul

Torrodd pandemig Covid-19 ar draws unrhyw linellau amser arfaethedig, a chollodd y broses fomentwm oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd ar gynnal gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun. Pan oedd yn bosibl i ni ddod ynghyd unwaith eto, cynhaliwyd ymgyngoriadau gan ddefnyddio holiaduron yn ystod digwyddiadau cymunedol megis y ffair Nadolig, ynghyd â'r wybodaeth a gafodd ei lloffa o'r prosiect Arts 4 Wellbeing, sef y Goeden Nadolig Tu Mewn Mas. Roedd gwybodaeth arall am yr amrywiol gynlluniau a phrosiectau wedi cael ei thrafod dros y blynyddoedd, ac roedd yn aml yn fater o ailgynnau'r ymchwil honno.

### 2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro

Mae Llandysul yn un o'r chwe thref a nodwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn ei hierarchaeth, ac felly mae ein pwyslais, i raddau, wedi bod yn canolbwyntio ar ei rôl o fod yn ganolfan gwasanaeth ar gyfer y gefnwlad ehangach. Rydym wedi ystyried gofynion ac anghenion ein cymuned gyfredol a chymuned y dyfodol ledled tirwedd eang, gan gwmpasu materion sy'n cynnwys Iechyd, Addysg, Trafnidiaeth, yr Economi a'r Amgylchedd.




Sesiwn ymgysylltu ar gyfer Strategaeth Adfywio Llandysul, Tachwedd 2022

**2.2.2 Gweithredu Cymunedol**

Mae nifer o ddigwyddiadau ymgynghori wedi eu cynnal gyda phreswylwyr lleol, yn ogystal ag ymwelwyr, ac maent wedi cyfrannu at y cynllun a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Datblygwyd y ddogfen bro ddrafft mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr arbenigol a swyddogion arbenigol o'r awdurdod lleol.

O blith y bobl a gymerodd ran yn niwrnod y sgwrs holiadur, roedd llawer ohonynt yn gwirfoddoli gydag o leiaf un o'r tua tri deg a mwy o glybiau, grwpiau, sefydliadau a chymdeithasau cymunedol lleol, neu'n cyfranogi ynddynt. Atebwyd mwyafrif yr holiaduron yn Saesneg, er bod i'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig draddodiad cadarn sydd wedi gwreiddio yn Llandysul.

Mae Llandysul, fel y rhan fwyaf o drefi marchnad, wedi brwydro i gadw ei hunaniaeth a'i chymeriad unigryw o ganlyniad i newidiadau diweddar ym mywyd cefn gwlad a masnach, newidiadau sydd wedi deillio o bolisïau ac iddynt ffocws trefol.
Mae cau'r farchnad da byw a'r banciau, a symud Swyddfa'r Post oddi ar y Stryd Fawr, oll wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â'r dref, gan effeithio ar yr hen fusnesau teuluol annibynnol sefydledig lleol a siopau eraill.

Mae'r ffordd osgoi, cau un o'r meddygfeydd teulu, ac adleoli'r ysgol i'r tu allan i'r dref i gyd wedi lleihau presenoldeb dyddiol pobl yng nghanol y gymuned. Mae mesurau cyni wedi effeithio ar y ddarpariaeth yn achos nifer o amwynderau dinesig, amwynderau a arbedwyd trwy ymdrechion ymroddedig gwirfoddolwyr yn unig.

Yn gyffredinol, mae newid yn anodd i bobl. Roedd y llifogydd diweddar mewn cartrefi a busnesau niferus yn ardal Llandysul wedi amlygu'r gymuned glòs, gydnerth sy'n bodoli yma. Mae effaith y llifogydd, sy'n cael ei dwysáu gan y ffaith bod cymaint o fentrau wedi cau, wedi ychwanegu at y teimlad o ddigalondid mewn tref farchnad sy'n ei chael hi'n anodd.

**2.2.3 Adborth y Gymuned**

Soniodd pobl am y topograffi serth a'r heriau a ddaw yn sgil hyn o ran darparu gwasanaethau a mynediad atynt. Gallai darparu trafnidiaeth leol reolaidd gywiro'r broblem hon trwy integreiddio dwy ardal y dref.

Roedd yr ymatebion i'r holiadur yn amlygu'r angen i uwchraddio adeiladau. Dywedai un sylw fod tref Llandysul "wedi colli ei chalon a'i henaid".

Oherwydd bod y dref ar ffin dau Awdurdod Sirol, mae yna ddirnadaeth yn bodoli nad yw'n gallu hawlio'r buddsoddiad o ran bod yn un o chwe chanolfan gwasanaeth Ceredigion.

Mae gan yr ymatebwyr lawer o syniadau, ac maent yn wirioneddol hoff o Landysul:

- "parcdir/afon hyfryd;
- tref fywiog mewn lleoliad hardd;
- tref gartrefol;
- tref gyfeillgar;
- lle da i fyw ynddo, cyfradd droseddu isel."

Soniodd pobl am yr angen/gallu i yrru. Mae Llandysul yn agos at yr arfordir ac mewn lleoliad da ar gyfer cyrchu cyfleusterau eraill.
Mae dymuniadau pobl yn cynnwys cael rhagor o siopau, i eiddo'r Stryd Fawr gael eu twtio, i adeiladau nad oes neb yn gofalu amdanynt gael eu hadfer a'u hadnewyddu, gwell mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, i'r strydlun gael ei fywiogi, hyrwyddo'r cyfleusterau hamdden a ddarperir eisoes trwy wella'r ganolfan hamdden a sefydlu Llandysul yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored a dan do – a hyd yn oed gwneud Gorllewin Cymru yn Barc Cenedlaethol.

Mae ar bobl eisiau stryd fawr ac iddi siopau sy'n darparu ar gyfer hanfodion bob dydd, a mwy o lefydd bwyta artisan, tebyg i Aberteifi. Mae yna botensial, er enghraifft, i greu Pizzatipi ger yr afon.

Mae syniadau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu'r stryd fawr i gynnwys siopau sy'n darparu ar gyfer gofynion heddiw.
- Creu llwybr beicio diogel am bum milltir i bob cyfeiriad o'r ysgol.
- Cyflwyno amwynderau megis llyn cychod, golff byr ac ardal sglefrfyrddio.
- Creu maes parcio ar y Stryd Fawr.
- Defnyddio adeiladau nad ydynt mewn defnydd yn ganolfannau digidol.
- Creu llawer o ddigwyddiadau sy'n annog rhyngweithio.
- Darparu ystod eang o leoedd o ddiddordeb i ymwelwyr sy'n dod o bob cyfeiriad.
- Troi Hen Gapel y Tabernacl yn ganolfan ddydd.

Daeth yn amlwg trwy gydol cyfnod ymgynghori y broses Cynllun Bro fod pobl wedi blino ac alaru ar holiaduron gan nad oedd dim i'w weld yn deillio o'r broses.

Mae gan bobl weledigaeth y dylai datblygiad raeadru o'r broses hon – y dylai Llandysul edrych fel a ganlyn mewn deng mlynedd:

- lle bo'r gymuned groesawgar yn parhau;
- lle bo twristiaeth yn cael ei defnyddio yn fodd i gyfoethogi'r gymuned;
- lle bo'r Stryd Fawr yn ffynnu am fod cyflogaeth wedi cael ei chreu yn yr ardal i gadw ein pobl ifanc;
- lle bo yna well gofal iechyd;
- lle bo mannau gwyrdd ac agored yn cael eu cynnal, ynghyd â holl weithgareddau chwaraeon y dref;
- lle bo llwybrau cerdded a beicio yn cael eu datblygu ymhellach er mwyn hyrwyddo twristiaeth sy'n seiliedig ar gerdded a gweithgareddau.

### 2.2.4 Ymatebion

Mae rhai o'r sylwadau a'r adborth o'r ymgynghoriad cymunedol yn cynnwys y canlynol:

Mae mwy o siopau a busnesau yn ofynnol yn Llandysul. Defnyddio adeiladau yn Ysgol Dyffryn Teifi nad ydynt mewn defnydd i fod yn hybiau digidol. Mae'r economi yn wael iawn ac mae dirfawr angen buddsoddiad arni. Dylem annog busnesau bach.

Mae'r gymuned yn prysur ddiflannu.

Mae'r economi'n dlawd iawn ac mewn cyflwr truenus.

Erbyn 2030, dylai'r Stryd Fawr fod yn ffynnu ac wedi'i hadfywio. Ceisiwch sicrhau bod busnesau Pont-tyweli yn parhau i fod â chyswllt â Llandysul. Mae'n bwysig i'r Stryd Fawr ddenu bwytai a siopau atyniadol.

Oherwydd y topograffi, ac o gymharu â Chastellnewydd Emlyn a Llanbedr Pont Steffan, mae'r ardal yn llai deniadol i'r henoed, teuluoedd ifanc a'r rhai ag anghenion hygyrchedd.

Cymuned liwgar a bywiog sydd wedi'i gwreiddio mewn hunangynaliadwyedd, yr amgylchedd a thwristiaeth ddiwylliannol.

Mae'r banciau i gyd wedi cau ac mae lleoliad newydd Swyddfa'r Post yn ei gwneud yn anodd i bobl oedrannus fynd yno.

Mae angen annog busnesau lleol i ehangu a datblygu i greu swyddi newydd.


Tref fywiog, lleoliad hardd. Gyda chymorth y Gymdeithas Tai, adfer ac adnewyddu adeiladau nad oes neb yn gofalu amdanynt. Dylem fod â chanolfan ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored. Gobeithiaf y bydd pob banc segur yn ailagor i fod yn fusnes. Gallech ddymchwel rhai o hen adeiladau Gwasg Gomer a chreu maes parcio.

Mae angen i rai busnesau wella eu darpariaeth a gwneud siopa yn brofiad pleserus.

O gymharu â chanolfannau cymunedol cyfagos, mae lleoedd parcio'n bwysig. Ble y bydd trafnidiaeth leol arni erbyn 2030?




Safle bws, Stryd yr Eglwys


Cyrchfan
Tirwedd
Byw a Gweithio
Cymuned
Rheoli Llifogydd
Llwybrau Troed a Phontydd
Iechyd a Llesiant
Gwelliannau i'r Stryd Fawr

### 3.1 Gweledigaeth a Strategaeth

Y weledigaeth yw y bydd Llandysul yn lle diogel, dwyieithog, ffyniannus a chroesawgar i fyw, gweithio ac ymlacio ynddo, ac y bydd yn cynnwys amwynderau naturiol deniadol a chymysgedd da o siopau, ynghyd ag amrywiaeth o fusnesau, a gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.

Y strategaeth yw pennu prosiectau allweddol, a sefydlu cynllun gweithredu ac iddo amserlenni i gynnal y cynnydd. Gallai Bwrdd strategol gael ei sefydlu, a fyddai'n cynnwys y Cyngor Cymuned, y Cyngor Sir a rhanddeiliaid lleol, i lywio a goruchwylio'r rhaglen. Dylid ystyried cyflwyno rôl Swyddog Datblygu'r Dref i gefnogi mewnbwn gwirfoddol ein rhanddeiliaid.

### 3.2 Pwyntiau Ffocws

Mae gan bob tref fannau ffocws, tirnodau ac atyniadau allweddol sy'n ei gwneud yn unigryw. Mae'n bwysig cynnal y rhai mewn bod, ond, ar yr un pryd, eu gwella a'u datblygu lle bynnag y bo modd a datblygu rhai newydd.

Mae yna lawer o dirnodau sy'n haeddu sylw yn Llandysul, gan gynnwys y meysydd hamdden yng nghaeau Tirdref, sy'n cwmpasu lawnt fowlio, cwrt tennis, ardaloedd picnic, maes criced a chaeau pêl-droed. Mae'r fenter hon yn cynnwys darparu pafiliwn a fydd yn cynnwys ystafelloedd newid, cawodydd, cegin ac ardal amwynder, ac ymgorffori taith gylchol ar hyd Afon Teifi.

Gerllaw caeau Tirdref ceir y Parc Coffa a'r Ardal Chwarae i Blant, sydd eto'n darparu cyfleoedd hamdden gwerthfawr. I gydnabod y rhai a gwympodd yn ystod y ddau Ryfel Byd diwethaf, cododd y Cyngor Cymuned wal gerrig sy'n ymgorffori Plac Coffa ac arno arysgrif o enwau'r rhai a fu farw. Mae hyn yn atgoffa'r holl bobl ifanc sy'n defnyddio'r cyfleuster o ddewrder y rhai a frwydrodd dros ein rhyddid a'n dyfodol.

Mae Afon Teifi ynddi ei hun yn dirnod, ac yn adnabyddus am ei gweithgarwch pysgota eog a sewin. Mae nifer o'r gymuned wedi cynrychioli Cymru mewn amrywiol gystadlaethau. Gwneir llawer o ddefnydd o'r afon hefyd gan Llandysul Paddlers, ac, unwaith eto, mae hwn yn glwb llewyrchus ac ynddo lawer o aelodau sy'n Bencampwyr Cymru a Phrydain ym meysydd ceufadu a chanŵio dŵr gwyn.

Mae hen Ysgol Ramadeg Llandysul, sef Ysgol Dyffryn Teifi yn fwy diweddar, yn gartref i Dŵr Cloc Hanesyddol. O ganlyniad i adeiladu Ysgol Bro Teifi, yr ysgol pob oed (3-19) newydd gwerth £30 miliwn, mae safle hen Ysgol Dyffryn Teifi wedi cael ei werthu i entrepreneuriaid lleol a'i ailddatblygu'n rhannol er defnydd y cwmni technoleg ymchwil Delineate.

Y weledigaeth yw y bydd Llandysul yn lle diogel, dwyieithog, ffyniannus a chroesawgar i fyw, gweithio ac ymlacio ynddo.

Y strategaeth yw pennu prosiectau allweddol, a sefydlu cynllun gweithredu ac iddo amserlenni i gynnaly cynnydd.










1. Afon Teifi
2. Llwybr cerdded y chwarel
3. Y Stryd Fawr
4. Caeau chwarae Tirdref

### 3.3 Blaenoriaethau

Er mwyn strwythuro'r Cynllun Bro, datblygwyd nifer o themâu allweddol yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Lle gwych i fyw a gweithio ynddo;
- Llandysul gwyrddach;
- Cyrchfan Llandysul.

Pennwyd pum maes blaenoriaeth allweddol, sy'n cynnwys y canlynol:

1. Gwelliannau i'r Stryd Fawr sy'n ymgorffori cynllun amlen tref:

   Dylunio cynllun a fydd, o bosibl, yn trawsnewid y strydlun o'r bont a'r ffin â Sir Gaerfyrddin, ar hyd y system unffordd, a hynny gan gydweddu â'r ardaloedd cadwraeth. Ymhlith y syniadau y mae defnyddio celfi stryd o safon, gosod goleuadau stryd newydd yn lle hen rai, a gwella safon a golwg y llwybrau troed. Bydd y cynllun amlen yn gwella'r ffurf adeiledig ac yn rhoi cyfle i wella ffryntiadau siopau ac eiddo domestig. Mae cynllun o'r fath yn annog pawb i wella eu safon.

2. Creu gwell llwybr troed caniataol o gwmpas y caeau chwarae yn Nhirdref, ac ymgorffori pont ar draws Afon Teifi a fydd yn cysylltu â llwybr pendant ar ochr Caerfyrddin ac yn creu taith gylchol:

   Amlygodd Covid-19 yr angen i greu cymaint o le â phosibl rhwng defnyddwyr llwybrau a throedffyrdd. Bydd cynyddu, estyn a gwella lled y daith gylchol hon ar hyd glan yr afon yn hwyluso mynediad y cyhoedd i fannau gwyrdd. Gellir gweld bod unigolion yn gwneud mwy o ddefnydd o'r droedffordd hon, yn enwedig pobl iau sy'n rhedeg a hyfforddi, a, chan ei bod ar dir gwastad, caiff ei defnyddio'n rheolaidd gan yr henoed neu unigolion sy'n dod dros lawdriniaeth, ac ati. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynorthwyo iechyd a llesiant unigolion. Mae yna hefyd gyfle i ddod â'r ddwy sir ynghyd trwy ymgorffori croesfan afon sy'n cysylltu â llwybr pendant a'r llyn yng nghyfleuster Llandysul Paddlers. Mae yna gyfleoedd tebyg eraill ar gyfer gwneud y gymuned yn fwy gwyrdd yn bodoli ar hyd llwybrau eraill.

3. Newid yn yr hinsawdd ac yn arbennig effaith rhagor o achosion o lifogydd ar y gymuned:

   Bedair blynedd yn ôl, profodd y gymuned ddistryw o ganlyniad i Storm Callum. Mae hyn yn parhau i bwyso'n drwm ar feddyliau pobl bob tro y mae yna fygythiad o lifogydd. Mae yna ragor o achosion o lifogydd wedi bod ar ôl Storm Callum ond nid ar yr un raddfa. Mae'r ddau awdurdod lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio cynigion lliniaru posibl, ond bydd arnynt angen cymorth pellach gan Lywodraeth Cymru i allu eu symud ymlaen i'r lefel nesaf.

4. Darpariaeth gymunedol a thwristiaeth:

   Mae cynllun wedi cael ei dreialu i ddod â thwristiaid o'r arfordir i'r cefnwlad i ymweld â chyrchfannau amrywiol yn y gymuned ehangach; byddai hyn yn ymgorffori treftadaeth ddiwylliannol, bwyd a diod, ac arlwy twristiaeth cyffredinol. Mae yna gyfleoedd ar gael i wella'r arlwy chwaraeon trwy sicrhau buddsoddiadau pellach mewn caeau gwyrdd, arwynebau chwarae ac asedau cysylltiedig, ynghyd â thrwy adeiladu ar ymdrech wirfoddol Calon Tysul, sy'n darparu pwll nofio a darpariaeth canolfan hamdden, a buddsoddi ynddi. Gellir adeiladu ar ymdrech Llandysul Paddlers o gael cyfle i ymgorffori cynllun gwella gwyrddu, ac mae yna hefyd botensial i letya maes carafanau teithiol yn ystod yr haf. Rhaid rhoi sylw hefyd i'r ddarpariaeth chwaraeon yn Ysgol Bro Teifi.

5. Iechyd a Llesiant:

   O ganlyniad i gau meddygfa yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu'n rhaid i Awdurdod Iechyd Hywel Dda ad-drefnu ei ddarpariaeth yn y dref. Cafodd llawer o gleifion eu tynnu oddi ar y rhestr a'u hanfon i bractisau eraill er mwyn sicrhau lle ar gyfer preswylwyr mwy lleol. Mae yna adeiladau ar gael yn ein cymunedau y gellid eu haddasu i fod yn Hyb Iechyd. Dewis arall fyddai ystyried darpariaeth ar ffurf safle maes glas i ddatblygu Hyb Iechyd arno. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bobl deithio cryn bellter i gyrchu gwasanaethau, gan gynnwys ffisiotherapi a darpariaeth ddeintyddol.

Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn gadarnhaol ac yn effeithiol, bydd pob cam gweithredu mewn perthynas â materion a themâu a nodwyd yn cael eu datblygu mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Bydd yna hefyd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal â phreswylwyr a busnesau lleol. O ran datblygiadau yn y dyfodol, boed yn achos yr amgylchedd adeiledig, yr amgylchedd naturiol, neu mewn perthynas â gwasanaethau, mae yna lawer o ffactorau y dylid eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys polisïau lleol a chenedlaethol – bydd rhai ohonynt yn gefnogol a rhai yn gyfyngol. Cyfeirir at bolisïau o'r fath lle bo hynny'n berthnasol.

O ran uchelgeisiau a dyheadau'r gymuned, mae'n bwysig bod anghenion cymunedol yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwyso hyn ochr yn ochr â chyfyngiadau posibl, sy'n cynnwys y ddaearyddiaeth leol, maint y boblogaeth a'r amrywiadau ynddi, cyfyngiadau ariannol, cyfleoedd ar gyfer cyllid grant, ac elfennau eraill o'r fath. Byddir yn mynd ati'n barhaus i gyfeirio at adborth cymunedol sydd wedi dod i law o ymarferion ymgynghori, a bydd y gymuned ehangach yn cael gwybodaeth gyson, ac ymgynghorir â hi yn y dyfodol.

O'r herwydd, mae'r ddogfen hon, er ei bod yn amlinellu datblygiadau posibl yn y dyfodol ar gyfer Llandysul, yn ddogfen gyfnewidiol, a bydd yn parhau i gael ei diweddaru a'i haddasu'n rheolaidd.




Llandysul Paddlers ar Afon Teifi

# Themâu ar gyfer Llandysul

## Llesiant

- Cymuned
- Llwybrau beicio
- Iechyd a llesiant
- Parcio
- Teithio cynaliadwy a hygyrchedd
- Trafnidiaeth
- Twristiaeth
- Teithio llesol
- Hamdden

## Creu Lleoedd

- Llety
- Gerddi cymunedol
- Cyfleoedd datblygu
- Gwelliannau i'r Stryd Fawr
- Hyrwyddo a rheoli
- Sgwâr y dref
- Gwell ffryntiadau

## Treftadaeth a Diwylliant

- Cadwraeth
- Diwylliant
- Treftadaeth
- Y Gymraeg
- Treftadaeth bensaernïol

## Yr Economi

- Addysg
- Teithio cynaliadwy a hygyrchedd
- Hyrwyddo

## Yr Amgylchedd

- Newid yn yr hinsawdd
- Llifogydd
- Yr amgylchedd naturiol
- Teithio cynaliadwy
- Seilwaith gwyrdd

Pynciau sy'n dod i'r amlwg o dan eu themâu priodol yng Nghynllun Bro Llandysul

### 4.1 Themâu sy'n Dod i'r Amlwg

Mae'r gymuned wedi blaenoriaethu set o is-themâu sy'n cyd-fynd â fframwaith y Cynllun Bro a amlinellir yn Adran 2. Mae'r pynciau yn y Cynllun Bro yn rhyng-gysylltiedig ac mae eu cynnwys yn croesgyfeirio. Un o'r prif ddibenion yw ychwanegu haen ychwanegol o wybodaeth leol at bob thema. Mae hyn wedi arwain at yr amcanion canlynol yn dod i'r amlwg:

Llesiant:

Yn y bôn, mae'r gymuned yn dymuno byw mewn cymuned ofalgar; cymuned sy'n gallu darparu gwasanaethau yn lleol a lle bo yna gyfle i bawb ddatblygu a ffynnu ar y llwybr o'u dewis.

Creu Lleoedd:

Gwella'r strydlun trwy gyfrwng cynllun amlen tref (sy'n cynnwys adnewyddu'r adeiladau yn allanol), cam a allai ddod â rhywfaint o ysbrydoliaeth a gobaith i helpu i adfywio'r dref.

Treftadaeth a Diwylliant:

Dylai'r gwaith o wella'r strydoedd fod yn gydnaws ac amlygu parch at dreftadaeth adeiledig Llandysul – yn enwedig ar hyd yr ardaloedd cadwraeth yn y dref.

Yr Economi:

Darparu cymorth i boblogaeth gydnerth trwy agwedd gallu gwneud, ymdeimlad o berthyn, a pharodrwydd i hyrwyddo ac arwain dyheadau economaidd ar gyfer economi leol Llandysul.

Yr Amgylchedd:

Gwella'r amgylchedd naturiol ac annog ffyrdd iachach o fyw trwy gysylltu parthau addysg a chyflogaeth â chraidd y dref.

Mae'r camau gweithredu hefyd wedi cael eu coladu, ynghyd â'u cyflwyno yn unol â phob thema.



Cyrraedd y Stryd Fawr o'r gogledd-orllewin, gyda Calon Tysul y tu cefn


Llesiant

### 4.2.1 Trosolwg

Roedd llesiant, yn ei amrywiol ddiffiniadau, yn nodwedd eithaf cryf mewn digwyddiadau ymgynghori ac mewn sgyrsiau cyffredinol wedi hynny. Dros y degawdau, mae cymuned hunangynhaliol a chynaliadwy Llandysul wedi amlygu ei dyfeisgarwch. Er enghraifft, tanysgrifiad cyhoeddus a llafur gwirfoddol oedd yn gyfrifol am adeiladu'r pwll nofio a gynhelir gan y gymuned. Yn yr un modd, roedd y weithred o brynu caeau Tirdref, gyda'u harwynebau chwarae a'u hamwynderau cyffredinol, ynghyd ag o adeiladu'r pafiliwn chwaraeon, i gyd wedi deillio o haelioni a pharodrwydd y gymuned i greu cyfleuster mor odidog. Mae'r rhain wedi cael eu gwella dros y blynyddoedd, a gwerthfawrogir haelioni'r Cyngor Cymuned yn darparu llif refeniw rhesymol i helpu i gynnal y cyfleusterau cymunedol gwerthfawr hyn, yn ogystal â'r Parc Coffa.

Gall hygyrchedd fod yn broblemus oherwydd topograffi y dref; mae llawer o'r ddarpariaeth tai, yr addysg, y gofal iechyd a'r datblygiad economaidd yn eistedd ar ben y bryn, tra bo'r ddarpariaeth siopa ar lawr y dyffryn.

Nid yw gwasanaeth bws rheolaidd i'r dref yn bodoli bron. Yn ffodus, wedi'i leoli yn y dref, dan adain Llandysul Pont-tyweli Ymlaen, y mae gweithredwr trafnidiaeth gymunedol (Dolen Teifi) sy'n cynorthwyo pobl i gyrchu gwasanaethau cyhoeddus a phreifat o gefnwlad eang, ac yn eu dwyn i mewn i'w ganolfan gwasanaeth yn Llandysul. Mae Dolen Teifi hefyd yn darparu beiciau trydan i'w llogi, sy'n ysgafnhau'r gwaith o ddringo'r bryniau cyfagos. Mae gan Sustrans lwybr beicio cydnabyddedig yn mynd trwy'r dref, elfen sy'n cynorthwyo twristiaeth werdd yn yr ardal. Mae gan Landysul lawer o leoedd parcio ar y stryd.

Mae Llandysul yn ffodus i fod â digon o leoedd parcio ar y stryd, ac mae'r cyhoedd yn hynod o ddiolchgar i'r Cyngor Sir am ddarparu cyfleusterau parcio rhad ac am ddim yn y dref. Mae hyn yn wir hefyd yn achos y maes parcio llai gyferbyn â Neuadd Tysul sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned ac yn cael ei reoli ganddo.

O ran darpariaeth gofal iechyd, llwyddodd Llandysul i lobïo Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddarparu Hyb Iechyd ar gyfer Llandysul, hyb a fydd, pan gaiff ei sefydlu, yn darparu gwell gofal meddygol. Mae'n fater 'nawr o ddod â'r holl randdeiliaid ynghyd i wireddu'r dyhead.

O ran cynaliadwyedd ac ôl troed carbon, nid yw'n gwneud fawr ddim synnwyr pan fo raid i tua 1,300 o breswylwyr deithio 14-30 milltir i gyrchu gwasanaethau, gan gynnwys deintyddiaeth a ffisiotherapi.


Cynigir bod hybiau llesiant Ceredigion yn cael eu lleoli yn Llanbedr Pont Steffan, Aberteifi ac Aberystwyth, a'r farn yw nad yw pobl Llandysul a rhai o'r trefi eraill yn cael darpariaeth deg.

Er bod yna gyflenwad gweddol dda ar gyfer y preswylwyr o ran darpariaeth gymunedol, mae hyn yn ganlyniad yn bennaf i ymdrech wirfoddol y gymuned.

### 4.2.2 Llesiant yn Llandysul

Mae'n amlwg ei bod yn hawdd cyflawni rhai nodau. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r rhain er mwyn dangos i'r gymuned bod modd cyflawni'r cynllun.

Yn y bôn, mae'r gymuned yn dymuno byw mewn cymuned ofalgar sy'n gallu darparu gwasanaethau yn lleol a lle bo yna gyfle i bawb ddatblygu a ffynnu ar y llwybr o'u dewis. Mynegodd aelodau'r gymuned y farn eu bod yn dymuno byw mewn modd anfeirniadol yn rhan o gymuned gynhwysol a chroesawgar, lle bo pawb yr un mor bwysig â'i gilydd ac yn meddu ar lais. Gall cymuned gydlynol megis Llandysul, gyda'r arweinyddiaeth a'r gefnogaeth gywir, gyrraedd a chyflawni ei nodau.




Blaenoriaethau llesiant Llandysul

### 4.2.3 Iechyd a Llesiant

Cafwyd mwy o ymatebion negyddol o dan y pwnc iechyd a llesiant nag unrhyw un o'r penawdau eraill yn yr holiadur. Mae hyn, o bosibl, yn ganlyniad i gau, dan orfodaeth, un o ddau bractis meddygon teulu y dref, a hynny oherwydd materion recriwtio.

O ganlyniad, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod practis meddygon teulu Llyn y Frân dan bwysau difrifol ac y gallai pethau fynd yn chwilfriw yno unrhyw bryd. Nodwyd y diffyg cyfleusterau parcio hefyd, er bod hyn yn cael ei ddatrys ar hyn o bryd. Teimlai rhai o gleifion Llyn y Frân fod eu gwasanaethau wedi gwaethygu o ganlyniad i gau meddygfa Teifi, a theimlai eraill ei bod bellach yn anodd cyrchu gwasanaethau, yn enwedig yn achos yr henoed neu'r rhai nad oedd ganddynt gar neu'r cyfle i deithio mewn car.

Teimlai llawer fod Llandysul yn cael ei adael ar ôl, a bod y gwasanaeth iechyd yn annigonol. Gwnaed awgrymiadau ar gyfer canolfan iechyd newydd a fyddai'n cynnig deintyddiaeth, optometreg a gwasanaethau cymorth clinigol eraill. Gallai hefyd ymgorffori elfen addysgol ar iechyd da, lle gallai pobl ddysgu sut i goginio prydau maethlon ar gyllideb isel; ystafelloedd ymarfer ar gyfer iechyd da; a chymorth gyda newidiadau mewn perthynas ag iechyd i'w ffordd o fyw. Teimlai pobl y gellid lleoli darpariaeth o'r fath ar safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt neu ar safleoedd y caeau chwarae.

Teimlai rhai fod gofal ar gyfer dinasyddion oedrannus yn wael. Roedd nifer yn ddiolchgar i Fwrdd Iechyd Hywel Dda am ailfeddwl mewn perthynas â darparu Hyb Iechyd ar gyfer Llandysul, a fu'n destun ymarfer ymgynghori arall gan yr awdurdod iechyd. Dylai hyn olygu, o dan agenda moderneiddio y Bwrdd, y bydd y gwasanaethau iechyd ar gael yn nes at gartref.

Gofynnodd un sylwebydd a fyddai yna feddygfa yn Llandysul erbyn 2030, a theimlai sylwebydd arall, er llesiant yr unigolyn, y dylai fod yna ragor o weithgarwch pontio'r cenedlaethau, a hwnnw'n cael ei ategu gan wasanaeth minibws lleol i gysylltu'r lledaeniad poblogaeth amlwg yn y dref a'i chefnwlad.

Mae'r canlynol yn nifer o syniadau seiliedig ar bolisi sy'n ymwneud ag Iechyd a Llesiant.

- Mae ffynonellau cyllid posibl ar gyfer gwella llwybrau beicio ar gael o Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.
- Byddai darparu llwybr beicio ac iddo arwyneb newydd, a fyddai'n cysylltu Llandysul uchaf, o Ysgol Bro Teifi, i Landysul isaf, yn darparu gwell mynediad i breswylwyr ar gyfer cerdded a beicio, ynghyd â sicrhau manteision iechyd cysylltiedig.
- Mae cyllid posibl ar gyfer rhandiroedd ar gael trwy becyn cymorth a ddarperir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- Byddai darparu parc newydd ar safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt a chyfleusterau mannau agored, gan gynnwys rhandiroedd, yn gwella mynediad i gyfleusterau mannau agored ac yn gwella iechyd a llesiant preswylwyr lleol.

Dros y degawdau, mae cymuned hunangynhaliol a chynaliadwy Llandysul wedi amlygu ei dyfeisgarwch.

Cymuned ofalgar sy'n gallu darparu gwasanaethau yn lleol a lle bo yna gyfle i bawb ddatblygu a ffynnu ar y llwybr o'u dewis.

### 4.2.4 Teithio Cynaliadwy a Hygyrchedd

Mae tref Llandysul wedi'i hadeiladu ar un ochr i ddyffryn Afon Teifi, sy'n golygu ei bod weithiau'n ofynnol teithio i fyny bryniau serth ar hyd priffyrdd a chilffyrdd, gan wneud cyrraedd y siopau ar y Stryd Fawr yn anodd, yn enwedig i'r henoed a dinasyddion â phroblemau symudedd. Byddai pobl yn hoffi gwell hygyrchedd i gadeiriau olwyn a llwybr beicio diogel.

Mae maes parcio ar waelod rhiw serth yn rhwystredigaeth, ac felly hefyd y ffaith bod masnachwyr a phreswylwyr yn parcio eu cerbydau yn y mannau parcio neilltuedig y tu allan i'r siopau yn hytrach na chadw at yr amserau aros cyfyngedig a ragnodwyd. Mae hyn yn arwain at ostyngiad yn nifer y lleoedd parcio ar gyfer pobl.

Roedd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys gwneud y "meysydd parcio yn rhai rhad ac am ddim i ddenu mwy o bobl a siopwyr i'r dref", neu ddarparu "trwyddedau parcio i breswylwyr a masnachwyr fel y gallant ddefnyddio'r maes parcio yn rhad ac am ddim". Roedd sylwadau eraill yn awgrymu cyflwyno mannau gwefru trydan yn y maes parcio.

Gan fod Llandysul yn dref farchnad wledig fach sy'n cael ei chysylltu â ffyrdd i drefi a dinasoedd mwy eraill, mae trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem wirioneddol, a chyda phump ar hugain y cant o deuluoedd Cymru heb y modd i ddefnyddio car, mae gwasanaethau bws rheolaidd yn rhaff achub i gyrraedd siopau, gwasanaethau bancio a gofal meddygol, ac i ymweld â ffrindiau a theulu. Cafwyd sylwadau a oedd yn amlinellu'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus mwy rheolaidd, dibynadwy, haws ei defnyddio, ac am bris rhesymol. Roedd "Pa drafnidiaeth?" yn ymateb cyffredin. Mae pobl yn teimlo eu bod yn bell o gyrraedd popeth ac yn ynysig, elfen sy'n awgrymu nad yw Bwcabus yn gweithio, a hynny am ei bod yn ofynnol ei archebu ymlaen llaw, ac mae'n ddrud i deuluoedd â nifer o blant. Awgrymodd pobl y dylid newid y system archebu fel y gellir bwcio'r bws fore'r defnydd bwriadedig i ganiatáu ar gyfer newidiadau i gynlluniau. Yn rhy aml o lawer, dim ond hanner llawn yw'r bysiau. "Nid yw trafnidiaeth gyhoeddus yn gweithio, ac, ar y cyfan, nid yw ar gael. Mae angen ei hintegreiddio; mae angen i'r system fysiau allu cludo pobl i Landysul yn ogystal â'u cludo allan o'r dref." Ni all pobl gyrraedd Pencader na Saron yn hawdd i gwrdd â'r gwasanaethau bob awr sy'n arwain i Gaerfyrddin.

Mae adleoli'r ysgol i safle ar gyrion y dref wedi peri anawsterau i lawer o deuluoedd. Rhoddwyd canmoliaeth i'r Padlwyr am sicrhau bod gwasanaeth minibws o Sgwâr Bradford bob bore i'r ysgol, a hynny am gyfraniad bach. Rhoddwyd ar ddeall y gellid trefnu trafnidiaeth ar gyfer pob teulu pe byddai angen.

Pe byddai'r cyswllt trên o Aberystwyth i Gaerfyrddin yn cael ei ddatblygu, byddai'n hanfodol bod Llandysul yn rhan o'r cyswllt hwnnw.

Ers cau'r banciau ac adleoli Swyddfa'r Post, mae pobl yn gofyn am wasanaeth bancio symudol mwy cynhwysfawr. Mae pobl yn meddwl y dylid lleoli mwy o bwyntiau arian mewn mannau sy'n denu grwpiau mawr o bobl.

Mae'r canlynol yn nifer o syniadau seiliedig ar bolisi sy'n ymwneud â Theithio Cynaliadwy a Hygyrchedd. Mae'r awgrymiadau hyn yn cyd-fynd â Strategaeth Drafnidiaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru, sef Llwybr Newydd, a gallant fod yn gymwys ar gyfer ffynonellau cyllid posibl, gan gynnwys y Gronfa Teithio Llesol a Chronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn.

- Nodwyd gwell cysylltedd rhwng y dref uchaf ac isaf yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Bro a hefyd yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd (GIA) a gynhaliwyd ar ran Cyngor Sir Ceredigion. Byddai darparu llwybr beicio ac iddo arwyneb newydd, a hynny o Ysgol Bro Teifi i lawr i Afon Teifi, yn gwella mynediad i feicwyr, cerddwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn.
- Roedd ymgynghoriad yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd a'r Cynllun Bro wedi nodi ardal ym Mharc yr Ynn ar gyfer gosod mannau gwefru cerbydau trydan ac i ddatblygu swyddfa/garej ar gyfer trafnidiaeth gymunedol Dolen Teifi. Mae gan Dolen Teifi gerbyd trydan eisoes, ac mae wedi gwneud cais am arian ar gyfer rhagor o gerbydau i ddarparu cymorth i breswylwyr ynysig ac i wella mynediad at gyfleusterau.

### 4.2.5 Cymuned a Thwristiaeth

Mae Llandysul a Phont-tyweli wedi'u bendithio â darpariaeth gymunedol ac arlwy twristiaeth cynhwysfawr.

I'r gogledd o Landysul y mae Ysgol Bro Teifi ar gyfer disgyblion 3-19 oed/campws cymunedol sy'n cynnwys darpariaeth chwaraeon o'r radd flaenaf.  Yno mae lleoliad cartref tîm hoci menywod Llandysul, llwyfan mawr a chanddo systemau sain a goleuadau da, ac awditoriwm sy'n ymffrostio mewn seddau gogwyddedig, codadwy. Mae'r holl gyfleusterau hyn yn cyfrannu at y gallu i gynnal cynyrchiadau mawr.

Gan symud tuag at y dref a safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt, mae menter gymunedol Calon Tysul, sy'n ymgorffori pwll nofio a chanolfan hamdden y dref, yn cynnig arlwy cymunedol ardderchog. Mae'r ganolfan yn gymorth i iechyd a llesiant unigolion, ac yn gweithio ochr yn ochr â'r cynllun Atgyfeiriadau Meddygon. Mae hefyd yn darparu atyniad tywydd gwlyb gwerthfawr i'n dinasyddion ac i dwristiaid, fel ei gilydd.

O symud i lawr y dyffryn, mae caeau Tirdref yn cynnwys parcdir a chaeau chwarae rhagorol. Mae pêl-droed, criced a bowlio yn cael eu cynnig yma, gan sicrhau cyfleoedd i bob grŵp oedran gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae yna hefyd lwybr troed caniataol yn rhedeg ar hyd Afon Teifi, a gwneir defnydd helaeth ohono. Ar gael yn ogystal y mae ardal chwarae i blant, a reolir gan y Cyngor Cymuned, ac mae hon hefyd yn cael ei defnyddio'n helaeth gan ein dinasyddion a chan ymwelwyr, fel ei gilydd.

Ymhellach i lawr yr afon ceir cyfleusterau trawiadol Llandysul Paddlers, sy'n cynnwys eu maes gwersylla a'u llyn artiffisial. Defnyddir y lleoliad hwn yn helaeth gan bobl leol ac ymwelwyr, ac mae'n ganolfan hyfforddi gydnabyddedig ar gyfer y gwasanaethau golau glas, yr RSPCA, prifysgolion o bob rhan o Brydain, yn ogystal â phersonél y lluoedd arfog.

Ochr yn ochr â safle Llandysul Paddlers y mae canolfan gymunedol a chelfyddydol Y Pwerdy. Mae yna hefyd ddarpariaeth gymunedol helaeth yn cael ei darparu gan grwpiau cymunedol eraill, grwpiau sy'n amrywio o'r Cybiaid a'r Sgowtiaid yn eu holl ffurfiau i glybiau ieuenctid ac endidau diwylliannol eraill.

Gallai'r awgrymiadau canlynol fod yn gymwys ar gyfer cronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru:

- Mae yna botensial i wneud Llandysul yn gyrchfan gynaliadwy i dwristiaid trwy i'r dref fod yn lleoliad ar gyfer chwaraeon awyr agored ac adeiladu ar lwyddiant ac enw da Llandysul Paddlers. Gallai'r hen ysgol ar Teras Marmor, yr oedd Telynau Teifi yn arfer gweithredu ohoni, gael ei defnyddio yn hyb awyr agored lle byddai cwmnïau annibynnol lleol yn darparu gweithgareddau, a lle byddai nifer o fanwerthwyr annibynnol a chanddynt gyswllt â gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn gwerthu ohoni. Byddai helaethu'r arlwy manwerthu yn y dref i gynnwys gweithgareddau awyr agored ehangach yn denu twristiaid penodol, a byddai darparu cyfleusterau lletygarwch a hamdden i letya'r ymwelwyr hyn yn cefnogi twf y dref. Ymhlith y syniadau y mae llety glampio ychwanegol, a chaffis a bwytai arbenigol, ynghyd â darparu cymorth i siopau bara a gwestai lleol arlwyo ar gyfer y cwsmeriaid hyn. Byddai angen ailystyried oriau agor gwasanaethau lleol i fanteisio ar farchnad y penwythnos/y farchnad ar ôl oriau. Yn ogystal â darparu'r gweithgareddau hyn, gellid darparu llety gwersylla tymhorol a fyddai'n fodd o gynhyrchu incwm i'r gymuned leol.
- Mae'r awgrymiadau ar gyfer hamdden yn cynnwys darparu parc sglefrfyrddio neu lain golff byr. Gallai'r rhain gael eu lleoli ar safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt, yn rhan o'r datblygiad cymysg a'r defnydd o fannau agored a gynigir ar gyfer yr ardal honno.
- Mae yna gyfle yn bodoli i leoliadau bwyd stryd dros dro a nifer o fwytai artisan gael eu gosod ar hyd y Stryd Fawr neu'n agos at yr afon; byddai hyn yn hybu'r economi a chyfleoedd am gyflogaeth, ac yn annog twristiaeth.
- Byddai ailddefnyddio eiddo gwag ar y Stryd Fawr i fod yn hyb digidol a chaffi yn gwella gallu preswylwyr a thwristiaid i gyrchu'r rhyngrwyd. Byddai'r lleoliadau yn fath o ganolfan wybodaeth i dwristiaid a'r gymuned, lle byddid yn darparu gwybodaeth am fusnesau lleol, atyniadau, cyrsiau a digwyddiadau yn y dref a'r ardal leol. Byddai darparu canolbwynt digidol yn cael ei ategu gan Wi-Fi rhad ac am ddim ac ap Tref, a ddarperid trwy gysylltu â rhwydwaith Rhyngrwyd Pethau LoRaWAN sy'n cael ei osod ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Ceredigion. Bydd defnyddio LoRaWAN yn helpu busnesau i weithredu mewn modd mwy craff, gan ddarparu cyfle iddynt nodi cyfnodau prysur, nifer yr ymwelwyr ac ati.

### 4.2.6 Camau Gweithredu

- Darparu hyb awyr agored ar safle'r hen ysgol ar Teras Marmor o fewn y saith mlynedd nesaf, a hynny mewn partneriaeth â manwerthwyr annibynnol a chwmnïau gweithgareddau, er enghraifft Llandysul Paddlers.

### 4.2.7 Polisïau Llesiant a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| we-01 | Bydd cynigion datblygu sy'n annog twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu cefnogi ar yr amod eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio safleoedd tir llwyd neu i addasu adeiladau mewn bodolaeth. | Polisi LU18 y CDLl: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir<br>Polisi LU19 y CDLl: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol<br>Polisi LU17 y CDLl: Cyfleusterau/ Atyniadau Twristiaeth (nad ydynt yn llety). |


Caerfyrddin
Carmarthen
A486 (A485)
Pren-gwyn
B4476
Prengwyn
Capel Dewi
P WC
Melin wlân
Rock mill
Woollen mill

Lôn Letty

# Creu Lleoedd



### 4.3.1 Trosolwg

Saif Llandysul ar lan Afon Teifi, afon enwog yn hanesyddol am ei heogiaid a'i sewin, sy'n rhoi naws am le i'r gymuned. Heddiw, gwneir defnydd helaeth o'r afon gan bysgotwyr a Llandysul Paddlers, sy'n denu degau o filoedd o ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn.

Mae ffurf adeiledig Llandysul yn cynnwys strydoedd cul ac arnynt nifer sylweddol o fentrau teuluol bach sy'n masnachu ar y brif dramwyfa. Fel yn achos llawer o drefi, mae yna lawer o ffryntiadau siopau gwag yno. Gallai gwella'r strydlun gyda chynllun amlen tref ddod â rhywfaint o ysbrydoliaeth a gobaith i helpu i adfywio'r dref. Mae yna nifer o gyfleoedd datblygu ar gael, ac mae cam y Cyngor Sir o brynu'r hen waith argraffu yn rhoi cyfle i sefydlu sgwâr canol tref a fydd, mewn ymateb i ganfyddiadau'r Cynllun Bro ac adborth yr ymgynghoriad, yn sicrhau prosesau gwella ac adfywio pellach o ran yr hyn a gynigir i ymwelwyr, y sector busnes, a dinasyddion y dref.

Mae'r Cyngor Sir wedi comisiynu ymgynghorwyr i ddatblygu cynnig gwyrddu ledled trefi'r sir, gan gynnwys Llandysul. Yn yr un modd, mae ymarfer brandio wedi cael ei gomisiynu gan y Cyngor Sir i helpu i frandio a hyrwyddo trefi Ceredigion. Unwaith eto, bydd cael dogfennau o'r fath ar waith yn cyfrannu at adfywiad.


Gellir gwneud llawer i ddiweddaru'r ddarpariaeth sydd ar gael o ran adeiladau cymunedol. Mae angen ailwampio Neuadd Tysul yn sylweddol, gellid gwella a moderneiddio'r pafiliwn chwaraeon ymhellach, a gellir gwneud gwelliannau i ehangu'r ddarpariaeth yn lleoliad Llandysul Paddlers. Fel y gellid ei ddisgwyl, byddai'r pwll a'r ganolfan hamdden sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned yn elwa o fuddsoddiad cyfalaf i'w gwneud yn fwy rhad-ar-ynni, ac, o roi hyn ar waith, byddai'n sicrhau gostyngiad sylweddol yn y gost refeniw a'r baich y mae'n rhaid i'r gymuned eu hysgwyddo. Mae prosiect yr Ardd wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus ym Mhont-tyweli. Gallai cyfle tebyg fod yn bosibl trwy neilltuo rhywfaint o dir cymunedol ar ochr Ceredigion i safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt.

### 4.3.2 Gwelliannau i'r Stryd Fawr a Gwell Ffryntiadau

Bu cryn drafodaeth yng Nghyngor Sir Ceredigion adeg creu Ffordd Osgoi Llandysul y gallai'r dref a'i thramwyfa gul elwa o gynllun strydlun. Defnyddiwyd hyn yn dystiolaeth yn yr ymholiad cyhoeddus a oedd yn hyrwyddo'r ffordd osgoi. Fodd bynnag, ni roddwyd hyn ar waith erioed. Byddai'r math hwn o gynllun yn gofyn am gymorth a mewnbwn proffesiynol i ddatblygu cynnig, elfen a fyddai'n arwain at ymgynghori pellach.

Yn ystod y broses ymgynghori, cynigiwyd y byddai sgwâr tref yn gwella'r ymdeimlad o lesiant trwy ddarparu man eistedd ar gyfer preswylwyr a thwristiaid fel ei gilydd. Gallai hefyd ddarparu ardal fach at ddefnydd marchnadoedd gwledig a digwyddiadau cymunedol eraill. Gallai un lleoliad o'r fath fod gerllaw'r hen fanc Barclays, a oedd, cyn hynny, yn rhan o safle Gwasg Gomer yn y dref. Byddai'n golygu adeiladu wal gynnal sylweddol er mwyn ei godi i lefel y Stryd Fawr. Teimlai un ymatebydd i'r ymgynghoriad y dylid caffael y rhan fwyaf o'r hyn sy'n weddill o hen safle Gwasg Gomer a'i droi'n faes parcio ar gyfer canol y dref.

Byddai Llandysul yn elwa o gyfundrefn cynllun grant amlen a fyddai'n adfer toeau, simneiau a ffryntiadau preifat a busnes. Byddai hyn yn sicrhau cofnod hanesyddol gwych a dyrchafedig o'r Llandysul a fu, yn enwedig yn achos eiddo busnes a allai ddenu twristiaeth a helpu i greu cyfleoedd busnes arbenigol. Byddai'r llwybrau troed hefyd yn elwa o gynllun tebyg i wella'r Stryd Fawr, yn ogystal â phe câi celfi stryd eu gosod. Gallai Tyfu Canolbarth Cymru fod yn un modd o fynd ar drywydd cyllid ar gyfer cynnig o'r fath, yn ogystal â'r Grant Gwella Trefi sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer tair o drefi Ceredigion, sef Llandysul, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron.




Blaenoriaethau creu lleoedd Llandysul

Awgrymiadau seiliedig ar bolisi ar gyfer y Stryd Fawr:

- Ailddefnyddio eiddo gwag ar y stryd fawr trwy gael siopau dros dro neu unedau egin fusnesau ar y llawr gwaelod, a darpariaeth ar gyfer fflatiau preswyl ar y llawr cyntaf.
- Ailddefnyddio gofodau gwag yng nghanol y dref ar gyfer orielau a mannau crefft dros dro, elfennau a allai ddarparu cymorth i artistiaid a chrefftwyr lleol a chyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr lleol.
- Yn achos unedau a fwriedir ar gyfer sawl defnyddiwr, eu darparu ar ffurf clystyrau i egin fusnesau, ynghyd â chymhorthdal rhent. Dylai'r unedau hyn fabwysiadu model busnes crefft, cynhyrchydd bwyd, artisan, a hynny gyda'r bwriad y gall llwyddiant ar y stryd fawr arwain at gymryd unedau unigol ac iddynt ffryntiadau eilaidd.
- Darparu cyfleusterau arlwyo a seddau i gyflenwyr bwyd stryd fel y gallant weithredu o unedau sy'n addas ar gyfer hamdden/lletygarwch, ac, ymhen amser, darparu cymorth i'r cyflenwyr sy'n tyfu gymryd uned unigol.

Mae'r pedwar awgrym olaf yn rhan o ddull Canol Trefi yn Gyntaf Llywodraeth Cymru a'r broses o ehangu cynnig manwerthu y stryd fawr. Byddent yn cefnogi busnesau annibynnol lleol i gael mynediad i unedau mewn prif ffryntiadau manwerthu am brisiau fforddiadwy, yn ogystal ag arwain chwyldro busnesau annibynnol yn Llandysul, lle mae cwmnïau annibynnol a'r newid i fasnachu ar-lein wedi bod yn llawer mwy cynaliadwy yn ystod y pandemig na siopau cadwyn cenedlaethol. Gallai hyn hefyd gael effaith ar dwristiaeth pe gellid marchnata Llandysul yn ganolfan rhagoriaeth 'artisan/annibynnol'.

Mae awgrymiadau eraill sy'n seiliedig ar bolisi fel a ganlyn:

- Ailddefnyddio gofod gwag yng nghanol y dref ar gyfer hyb gwaith digidol a fydd yn darparu lleoliadau gwaith, Wi-Fi a chyfleusterau argraffu ar gyfer gweithwyr y sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd. Byddai hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd ar gyfer gweithio o bell yn yr ardal, ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref, gan arwain at fuddion economaidd posibl.
- Mae'r hen ysgol ar Teras Marmor yn darparu nifer o gyfleoedd ar gyfer manwerthu. Byddai'r safle'n addas ar gyfer canolfan awyr agored sy'n cynnig ystod o gyfleusterau ar gyfer gweithgareddau awyr agored, gan gynnwys ceufadu a chanŵio, a beicio a cherdded. Gallai'r cyfleusterau gynnwys cawodydd a chypyrddau clo, yn ogystal â nifer o fanwerthwyr gweithgareddau awyr agored annibynnol. Mae yna le ar y tir i osod mannau gwefru trydan, a hynny ar gyfer ceir a beiciau fel ei gilydd.
- Fel dewis arall, mae yna botensial i safle'r hen ysgol gael ei ailddefnyddio yn safle ar gyfer nifer o unedau egin fusnesau. Ar hyn o bryd, mae gan yr eiddo sawl gweithdy a swyddfa ar y safle. Mae digon o le parcio ar y tir ar gyfer sawl busnes, a lle i sawl man gwefru cerbydau trydan.


**4.3.3 Cyfleoedd Datblygu**

Mae'r cyfleoedd canlynol wedi eu nodi yn rhan o'r datblygiad cynllunio.

**4.3.3.1 Datblygiad Tai**

O ran tai, mae cyfyngiadau yn parhau o hyd ledled y ddarpariaeth tir ddynodedig yn Llandysul. Yn fras, gall y rhain gael eu nodweddu gan y costau seilwaith sylweddol a ddaw yn sgil datblygiadau canolig eu maint o ran ffyrdd, carthffosiaeth, gwastraff, dŵr, ac ati. Nifer cyfyngedig o anheddau newydd a gwblhawyd yn ystod y degawd diwethaf, ac mae hyn wedi cael effaith ganlyniadol ar economi a bywiogrwydd y dref.

Mae'r tir datblygu a ddynodir ar hyn o bryd yn gorwedd i'r gogledd o'r dref ac wedi'i leoli gerllaw ystad dai Y Ffawydd, y tu ôl i ystad Parc yr Ynn, sef y safle mwyaf yn ymyl meddygfa Llyn y Frân. Ychydig o blotiau mewnlenwi eraill sydd o fewn cwrtil y dref.




Gweledigaeth sy'n dangos y potensial ar gyfer nodwedd Sgwâr Tref yn cysylltu Stryd y Gwynt a Heol Newydd. Gallai hyn gynnwys cyfleuster llesiant cymunedol neu ymyrraeth bensaernïol yn y dirwedd.

#### 4.3.3.2 Datblygiad Economaidd

O ran yr economi, mae'r tir sydd wedi ei glustnodi i wasanaethu anghenion cyflogaeth a busnes Llandysul wedi ei leoli ar ddau safle sefydledig, sef Parc Menter Groesffordd ar gyfer defnydd busnes cyffredinol a Chanolfan Bwyd Cymru Horeb, sydd wedi'i lleoli ar ffin y ward yn Horeb ac, fel y mae'r enw'n ei awgrymu, sy'n hyrwyddo a chynorthwyo busnesau yn y sector bwyd a diod, yn ogystal ag annog arallgyfeirio ac ychwanegu gwerth at y deunyddiau crai a gynhyrchir gan y gymuned ffermio.

Mae angen i Lywodraeth Cymru annog mwy o ymwybyddiaeth o'r safleoedd hyn a'u hyrwyddo er mwyn creu rhagor o swyddi. Dylai'r Cyngor Sir, o dan yr adolygiad o'r cynllun lleol, sicrhau bod tir gerllaw'r safleoedd cyflogaeth hyn yn cael ei ddiogelu ar gyfer ehangu yn y dyfodol.

#### 4.3.3.3 Safleoedd Datblygu Posibl

O ganlyniad i gau Ysgol Dyffryn Teifi ac Ysgol Gynradd Llandysul, mae'r ddau safle yn addas i'w datblygu. Yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Bro, dywedodd llawer fod yna gyfle i ddefnyddio'r safleoedd i ddibenion gwahanol, gan gynnwys coleg chweched dosbarth a gwell cyfleusterau meddygol. Mae yna'n sicr gyfle i'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd cymysg, gan gynnwys tai, defnydd masnachol ysgafn, ac, o bosibl, datblygiad cysylltiedig ag iechyd.

Mae un rhan o hen Ysgol Gynradd Llandysul, ar ôl ychydig flynyddoedd o fod yn wag, wedi cael ei gwerthu i fusnes theatraidd, tra bo'r rhan arall, yr hen Ganolfan Integredig i Blant, wedi'i chymryd drosodd gan grŵp Cristnogol, ac mae yna opsiynau iddo ei phrynu. Deellir bod gan y perchennog gwreiddiol awydd hefyd i geisio caniatâd cynllunio ar gyfer rhywfaint o dai ar yr un safle.

Mae yna ddyhead i atgyfodi prosiect o godi pont dros Afon Teifi yng nghaeau Tirdref a fyddai'n cysylltu'r ddau awdurdod lleol a'r priod lwybrau troed: llwybr troed caniataol yn Nhirdref yn cysylltu â llwybr troed diffiniol ar ochr Sir Gaerfyrddin. Byddai hyn yn creu taith gylchol a fyddai'n hyrwyddo'r agenda dwristiaeth ac yn gwella iechyd a llesiant preswylwyr lleol.

Mae'r cyfle datblygu mawr arall wedi'i ganoli ar gaeau chwarae Ysgol Dyffryn Teifi gynt. Mae yna farn sylweddol na ddylai'r safle cyfan gael ei drosglwyddo i dai, ond yn hytrach i gymysgedd o ddatblygiadau: tai a diwydiant ysgafn, e.e. adeiladau gweinyddol neu swyddfeydd. Mewn sgwrs, cynigiodd llawer ddarpariaeth gofal iechyd a dysgu newydd ar gyfer yr 21ain ganrif ar y safle, darpariaeth a fyddai'n ymgorffori'r hyn a ystyrir bellach yn orddatblygiad yn achos Meddygfa Llyn y Frân. Roedd rhandiroedd yn yr ardal hefyd yn cael eu hystyried yn briodol, yn ogystal â'r posibilrwydd o drosglwyddo rhan o'r cae i'r diben hwn.

Mae potensial yn bodoli i gael cynllun gwresogi ardal ar y safle hwn a allai ddarparu costau ynni/gwresogi gostyngol ar gyfer y tai preifat a chymdeithasol sy'n agos at y safle, yn ogystal ag ar gyfer cyn gartref preswyl Ceredigion yn Awel Deg, sy'n cael ei ddefnyddio ar ffurf swyddfeydd yn bennaf ar hyn o bryd. Roedd yna farn ddiwrthdro yn ystod yr ymgynghoriad y dylid cadw ardal sylweddol o dir yn fan gwyrdd neu dir amwynder am fod cyfran uchel o'r boblogaeth yn byw yn yr ardal gyffredinol honno, ac am y byddai'r angen i ddatblygu tai yn Llandysul yn y dyfodol hefyd yn debygol o gael ei glustnodi ar gyfer yr ardal honno yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn nhermau datblygiad economaidd, mae'n ofynnol rhoi mesurau diogelu ar waith i sicrhau argaeledd tir ym Mharc Menter Groesffordd a Chanolfan Bwyd Cymru Horeb ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.



Ystad dai Y Ffawydd

#### 4.3.4 Camau Gweithredu

- O fewn y tair blynedd nesaf, ailddefnyddio eiddo gwag ar y Stryd Fawr yn orielau celf a siopau dros dro.

Mabwysiadodd Cariad Glass y strategaeth hon, gan arloesi ffordd y gall eraill ei dilyn. Agorodd salon gwallt newydd yn hen fanc yr HSBC yn ddiweddar, ac mae yno ofod wedi'i neilltuo ar gyfer celf a chrefft. Mae busnes arall newydd agor yn Tŷ Bradford, sy'n dangos gwaith artistiaid lleol. Arwyddocâd hyn yng nghyd-destun y Cynllun Bro yw ei fod yn meithrin hyder, a'r gobaith yw y bydd yn ysgogi eraill i ddilyn eu hesiampl. Bydd hyn, yn y pen draw, yn ei amlygu ei hun trwy sicrhau mwy o ymwelwyr i hybu ffyniant a hyder yn y dref ac ar Y Stryd Fawr.

Bydd cyflawni'r cynnig o sgwâr i'r dref yn cael effaith sylweddol ar ffyniant y dyfodol a chyfeiriad Llandysul o fod yn dref farchnad gredadwy ar gyfer preswylwyr a thwristiaid fel ei gilydd. Bydd cynlluniau i fynd i'r afael â'r strydlun ac ymddangosiad cyffredinol ffryntiadau ein siopau a'n llety preswyl yn denu rhagor o bobl i'r dref.

Bydd buddsoddiad pellach mewn ardaloedd megis ein caeau chwarae o ganlyniad i'r gwelliant arfaethedig i'r llwybr cylchol, gwaith gwyrddu cydnaws a'r groesfan dros yr afon, yn ogystal â buddsoddiad tebyg yng nghyfleuster Llandysul Paddlers, yn gwella'r arlwy i bawb sy'n byw yn Llandysul ac yn ymweld â'r dref. Bydd buddsoddiad a chefnogaeth i'r pwll a'r cyfleuster hamdden cymunedol, ynghyd â'r ddarpariaeth gofal iechyd, oll yn helpu i gyflawni'r dyheadau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Bro hwn.

#### 4.3.5 Polisïau Creu Lleoedd a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| pl-01 | Bydd cynigion sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd Canol y Dref yn cael cefnogaeth gref. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040: Polisi 6: Canol Trefi yn Gyntaf<br>Polisi DM06 y CDLl: Dylunio a Chreu Lleoedd o Safon Uchel<br>Polisi LU18 y CDLl: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir<br>Polisi LU19 y CDLl: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol. |



Ffryntiad stryd ar y Stryd Fawr



# Treftadaeth a Diwylliant

**4.4 Treftadaeth a Diwylliant**

Datblygodd tref Llandysul o amgylch Eglwys Sant Tysul, y sant sy'n rhoi ei enw i'r dref, a hynny mewn man rhydadwy ar Afon Teifi rywbryd yn ystod y bumed ganrif. Mae'r dref wedi datblygu ar lan ogleddol-orllewinol serth dyffryn yr afon; mae'n cynnwys tai teras a strydoedd cul, eiddo carreg a llechi, a chasgliad gwych o ffryntiadau siopau Fictoraidd.

Mae yna nifer o adeiladau rhestredig dynodedig yn y dref, gan gynnwys Pont Llandysul ac Eglwys Sant Tysul. Mae Ardal Gadwraeth (CSC, 2013. LDP1 2007-2022) a ddynodwyd yn 1988, yn cwmpasu rhan ganolog hŷn y dref, ynghyd â pharcdir sy'n ffinio ag Afon Teifi ac sydd wedi elwa o waith gwella amgylcheddol a mynediad cyhoeddus. Mae yna 24 o Adeiladau Rhestredig yn y dref, ac mae un ohonynt yn adeilad rhestredig Gradd ii*.

Adeiladau Rhestredig a Thirnodau yn Llandysul:

- Postyn milltir
- Maestir sydd wedi'i gysylltu ag ochr chwith Gwesty'r Porth
- Maestiroedd y tu ôl i Westy'r Porth
- Gwesty'r Porth
- Yr Hen Ficerdy
- Porth mynwent Eglwys Sant Tysul
- Eglwys Sant Tysul
- Mynwent Eglwys Sant Tysul
- Rhif 1 Tŷ Richmond
- Rhif 2 Tŷ Richmond
- Rhif 5 Barley Mow
- Capel Seion yr Annibynwyr
- Siop y drws nesaf i Carreg Llys, Lôn Wesley
- Carreg Llys, Lôn Wesley
- Rhif 3 Stryd Lincoln
- Hen Gapel Ebenezer
- Rhif 1 Stryd y Gwynt
- Capel y Tabernacl
- Hen Dŷ Capel
- Neuadd Dinarth
- Rock House
- Rocklee
- Rhif 1 Stryd y Bont
- Caerglyn
- Pont Llandysul
- 81004 – Pont Llandysul





Palet deunyddiau Llandysul

#### 4.4.1 Trosolwg

Mae tref Llandysul yn gyforiog o dreftadaeth a diwylliant, ac, ochr yn ochr â thref farchnad Tregaron, mae ganddi un o’r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y sir. Bydd diddymu gwasanaethau cyhoeddus yn y trefi marchnad yn golygu her o ran cadw’r pwysigrwydd ieithyddol.

Mae’r gymuned yn hynod o ffodus fod y Cyngor Sir wedi manteisio ar raglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ac ymgymryd â’i brosiect cyfalaf mwyaf erioed trwy sefydlu’r ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 oed newydd, Ysgol Bro Teifi. Ni fydd hyn yn datrys mater yr iaith, ond mae Llandysul o leiaf mewn gwell sefyllfa i gadw ei chanrannau o siaradwyr gan ei bod yn darparu addysg sy’n cwmpasu ardal ddaearyddol eang.

Mae gan Landysul dapestri cyfoethog o arlwy diwylliannol gan fod mwyafrif y gwasanaethau yn yr eglwysi/y capeli yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, mae’r dref yn cynnal Te Cymraeg adeg Dydd Gŵyl Ddewi, ac mae’n gartref i sefydliadau megis y Cymmrodorion, Cylch Cinio Cymraeg Llandysul, Yr Urdd, clybiau ieuenctid, a phwll nofio a darpariaeth canolfan hamdden Calon Tysul sy’n hyrwyddo ac yn cynnig addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae enghreifftiau o Dreftadaeth a Chadwraeth i’w gweld ym mhob rhan o’r dref, a phan wneir darpariaeth ar gyfer gwelliannau i’r strydlun, rhaid gwneud hyn mewn modd cydnaws, gan barchu treftadaeth Llandysul – yn enwedig ar hyd yr ardaloedd cadwraeth yn y dref.

#### 4.4.2 Diwylliant Hanesyddol a Threftadaeth Bensaernïol

Mae gan Landysul un o’r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg o unrhyw ward etholiadol yng Ngheredigion. Mae’n dref farchnad draddodiadol Gymreig ac iddi dapestri cyfoethog o gapeli ac eglwysi Cymraeg, grwpiau megis y Cylch Cinio Cymraeg, y Cymmrodorion a Merched y Wawr, a, heb anghofio wrth gwrs, Ysgol Bro Teifi, sy’n darparu addysg Gymraeg ar gyrion y dref.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed heriol iddi’i hun o fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud ei ran trwy sicrhau ei fod yn cynnig gwasanaethau dwyieithog ac, ar bob cyfle, yn hyrwyddo ac yn annog y cyfle i gyfranogi mewn dosbarthiadau Cymraeg. Mae rhai swyddi’n mynnu bod gan yr ymgeisydd y gallu i siarad yr i safon briodol erbyn amser penodol. Yn yr un modd, mae gan lawer o sefydliadau yn y dref bolisïau dwyieithog, yn cynnwys Cyngor Cymuned Llandysul.

Mae rhai ardaloedd yn Llandysul yn amodol ar amlen tref yn cynorthwyo i gadw’r safon to’r adeiladau yn rhestredig, ac mae defnydd masnachol yn cael ei wneud o un ohonynt. Mae’r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion a gofynion modern a chadw gwerth hanesyddol yn hawlio agwedd gytbwys a chefnogol at unrhyw gais cynllunio.

Mae gan Eglwys Sant Tysul gynlluniau cyffrous i adnewyddu’r prif dŵr gan ei fod yn ei gwneud yn amhosibl defnyddio rhan o’r Eglwys ar hyn o bryd. Yn ogystal, bwriedir ymgorffori llawr mesanîn a fydd yn darparu gwasanaethau cymorth y mae gofyn amdanynt mewn eglwysi modern.

Mae’r canlynol yn nifer o syniadau seiliedig ar bolisi sy’n berthnasol i safbwyntiau ynghylch hybu’r Gymraeg a’r diwylliant a’r dreftadaeth Gymreig. Gallai’r rhain fod yn gymwys i gael cyllid o gronfeydd Creu Lleoedd yn rhan o gyllid Trawsnewid Trefi Lywodraeth Cymru.

- Darparu nifer o gyfleoedd dysgu cymunedol gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gampws Ysgol Bro Teifi yn ystod oriau nad ydynt yn oriau ysgol.
- Byddai trawsnewid Hen Gapel y Tabernacl yn ganolfan gofal ddydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ac yn galluogi teuluoedd ifanc i aros yn yr ardal.


1


3


2


4

1. Eglwys Sant Tysul
2. Pont yn croesi Afon Teifi gan gysylltu Pont-tyweli â Llandysul
3. Cyn ysgol Dyffryn Teifi
4. Golygfa o Bont-tyweli o gaeau Tirdref ar draws Afon Teifi

Mae tref Llandysul yn gyforiog o dreftadaeth a diwylliant, ac mae ganddi un o’r cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y sir.

### 4.4.3 Camau Gweithredu

- Trawsnewid Capel y Tabernacl yn ganolfan gofal dydd o fewn y tair blynedd nesaf.

Er bod hyn yn ddyhead yn y Cynllun Bro, mae ystyriaeth ofalus yn ofynnol ynghylch addasrwydd y capel segur i'r defnydd hwn. Gallai'r math hwn o gyfleuster gael ei ymgorffori i ffurfio, er enghraifft, Neuadd Tysul adnewyddedig ac ar ei newydd wedd. Sawl blwyddyn yn ôl, nododd Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen fod i'r eiddo hwn y potensial i gartrefu amgueddfa ac arlwy twristiaeth yn ymwneud â Frank Lloyd Wright oherwydd y cysylltiad teuluol agos a oedd gan ei deulu â'r ardal hon. Gellid gefeillio hyn â'r agweddau hanesyddol a diwylliannol sy'n ymwneud â Hen Gapel Llwynrhydowen, a'r cyfnod pan gafodd y bobl leol eu troi allan o'r capel am nad oeddent yn cyd-fynd â safbwyntiau gwleidyddol y Sgweier lleol ar y pryd.

Byddai cynllun amlen tref hefyd yn cefnogi dyheadau treftadaeth y dref trwy sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer eiddo'r gymuned, yn arbennig yn yr ardaloedd sy'n rhan o'r ardal gadwraeth yn Llandysul. Mae'r potensial yn bodoli i adrodd hanes Stryd y Ffynnon, a gafodd ei henw o'r enghraifft gyntaf o ddŵr tap, a hynny i mewn i dafarn y goets fawr ar y pryd, sef Gwesty'r Porth.

Mae cynllun i ddyrchafu bodolaeth y fasnach argraffu a chyhoeddi yn y dref, yn ogystal â'n treftadaeth o ran y llu o felinau gwlân a fodolai yn yr ardal leol yn y gorffennol, yn bosibilrwydd arall.

Câi offeryn cerdd cenedlaethol Cymru, y delyn, ei saernïo â llaw yn Llandysul gan Telynau Teifi. Gwaetha'r modd, mae effaith amodau masnachu anodd wedi golygu nad yw'r cwmni cymunedol yn masnachu mwyach. Cafodd y sgiliau niferus gofynnol eu trosglwyddo gan Allan Shires, gwneuthurwr telynau o fri, i brentisiaid lleol, ac mae yna awydd i ailsefydlu busnes tebyg fel nad yw'r sgiliau lleol hyn yn diflannu yn ein cymuned. Mae'r cynnig hwn yn magu momentwm a chefnogaeth gan bobl flaenllaw yn y maes.

### 4.4.4 Polisïau Treftadaeth a Diwylliant a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| hc-01 | Lle bônt yn cael eu dylunio i ddiogelu, cadw a hyrwyddo cymeriad yr adeilad, cefnogir datblygiadau sy'n hwyluso ailddefnydd priodol o adeiladau treftadaeth gwag neu adeiladau na wneir defnydd digonol ohonynt. | LIC TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol Polisi DM19 y CDLI: Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol. |



Golygfa o Landysul o gaeau Tirdref, Parc Coffa

# Yr Economi


STRYD Y GWYNT
WIND STREET
Telephone
01559-362757
Welcome
20
STRYD LINCOLN
LINCOLN STREET
Dosbarth
Recriwtio Nawr!
Recruiting Now!

### 4.5.1 Trosolwg

Mae economi ehangach Llandysul yn cynnwys amrywiaeth o sectorau: amaethyddiaeth a gwasanaethau cysylltiedig, twristiaeth a bwyd, tra bo economi leol y dref yn dibynnu ar gymysgedd o fusnesau sector preifat ar y Stryd Fawr; iechyd, addysg, chwaraeon, twristiaeth; a gwasanaethau cyfreithiol ac yswiriant cyffredinol. Mae'r economi wedi gweld dirywiad dros nifer o flynyddoedd o ganlyniad i ganoli gwasanaethau megis bancio a chanolfannau gwaith, ynghyd â gwasanaethau awdurdodau lleol ar eu hamrywiol ffurfiau.

Gan nad oes yna wasanaethau bws rheolaidd, mae'n anodd sicrhau cyfleoedd gwaith y tu allan i'r dref os nad ydych yn berchen ar gar. Mae'n ofynnol i'r dref gael ei chynnwys yn y Cynllun Teithio Llesol, a fydd yn arwain at gyfleoedd i ddarparu amgylcheddau diogel i gyrraedd safleoedd addysg a chyflogaeth – er enghraifft, creu llwybr troed o ymyl ogleddol y dref yn Stryd y Ffynnon i Ysgol Bro Teifi a'r parc menter a busnes ychydig y tu hwnt. Mae llawer yn credu bod creu'r ffordd osgoi a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n rhan o ffordd gyswllt Ceredigion, wedi ychwanegu at ddirywiad canol y dref, ac mae rhai'n dadlau bod lleoliad Ysgol Bro Teifi wedi cyfrannu ymhellach at hyn.

O ganlyniad i dopograffi Llandysul, mae bron yn amhosibl datblygu ar lawr y dyffryn gan fod y rhan fwyaf o'r dref ar y gorlifdir. Mae creu Canolfan Bwyd Cymru Horeb yn rhoi cymorth i agwedd dechnegol y diwydiant bwyd ac yn ychwanegu at yr ymgyrch i arallgyfeirio'r sector amaethyddol ac ychwanegu gwerth at ei gynnyrch. Bydd cyfleoedd cyflogaeth pellach yn dod ar gael yn sgil yr estyniad arfaethedig i'r safle. Gan fod parc menter y Groesffordd dan reolaeth Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol creu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth ar y safle i leihau'r angen i deithio ymhellach, ac i atal niweidio'r amgylchedd a chynyddu ôl troed carbon y gymuned yn yr ymdrech i chwilio am waith.

Mae addysg yn gyfrannwr cyflogaeth mawr o ran economi'r dref gan ei bod yn darparu'r cyfleoedd gwaith mwyaf yn y dref, ochr yn ochr â'r cwmni argraffu a chyhoeddi sefydledig, Gwasg Gomer. Mae angen gwneud defnydd pellach o ased yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Ar hyn o bryd, mae bron pob defnydd ychwanegol o'r cyfleuster yn digwydd trwy ei ddarpariaeth chwaraeon. Mae yna gyfle yn bodoli i wneud llawn ddefnydd o'r asedau trwy fanteisio ar y cyfleusterau rhagorol sydd ar gael. Gellid cynnal ystod o ddosbarthiadau nos ledled amrediad o ddisgyblaethau i ddarparu ar gyfer anghenion ehangach y gymuned a helpu i uwchsgilio dinasyddion.

Mewn termau economaidd, mae angen i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod digon o fuddsoddiad a chapasiti ar gael o ran argaeledd tir cyflogaeth, dŵr, a chapasiti carthffosiaeth, yn ogystal â gwasanaethau megis trydan a chapasiti band eang. Bydd diffyg y gwasanaethau hyn yn llesteirio datblygiad economaidd. Ar hyn o bryd, mae'r lefelau ffosffad yn yr afonydd yn golygu nad oes bron dim datblygiad yn cael ei ganiatáu, sy'n bygwth busnesau.

Poblogaeth gydnerth sy'n meddu ar agwedd gallu gwneud, ymdeimlad o berthyn, a pharodrwydd i hyrwyddo a gwireddu'r dyheadau hyn yw cryfderau economi leol Llandysul. Mae llawer o enghreifftiau'n bodoli o ficrofusnesau bach sydd wedi tyfu i fod yn arweinwyr y farchnad, gan gynnwys Tregroes Waffles, Caws Teifi Cheese, Gwasg Gomer, The Arcade – pob un ohonynt wedi amlygu gallu i dyfu busnesau a dyhead i greu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal leol. Gellid tynnu sylw at lawer o enghreifftiau eraill yn y gymuned ehangach. Mae Llandysul Paddlers wedi ennill enw da am eu disgyblaeth, ac wedi cynhyrchu llawer o bencampwyr canŵio Cymru a Phrydain Fawr.

### 4.5.2 Addysg

Dylid annog dinesydd Llandysul i fod yn ddysgwr gydol oes, lle mae'n creu ac yn adeiladu ar ddiwylliant sy'n cael ei feithrin ganddo ef ei hun, lle mae diddordebau lleol yn cael eu paru â chyfleoedd lleol, a lle bo trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau o'r genhedlaeth hŷn i genedlaethau eraill nid yn unig yn dderbyniol ond yn cael ei groesawu.


Mae addysg yn ganolog i wella mynediad yr unigolion at weddill ei fywyd a meysydd ymhellach i ffwrdd. Daeth llawer o sylwadau i law ynghylch gweithgareddau yn y gymuned, er enghraifft dysgu gydol oes, cyrsiau rhan-amser, dosbarthiadau nos, gweithdai blasu, clybiau sy'n hybu llesiant, a chyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. Mae yna awydd am ddarpariaeth addysg ychwanegol sy'n cael ei hyrwyddo'n well ac sy'n weladwy yn y gymuned. Rhai enghreifftiau o hyn fyddai cyrsiau cyfrifiadur i oedolion, rhagor o glybiau i bobl ifanc yn eu harddegau, a chyfleusterau i bobl sy'n gweithio. O ran cwricwlwm ysgolion, awgrymwyd y canlynol: "y modd i lenwi ffurflen dreth, i gofrestru'n unigolyn hunangyflogedig, i wneud cais am fenthyciadau dechrau busnes, i sefydlu busnes", a "chaniatáu i blant astudio Celf a Cherddoriaeth ar lefel TGAU, yn hytrach na'r naill neu'r llall".

Mae yna deimlad cryf fod y ddarpariaeth band eang cyflym yn yr ardal yn annigonol, elfen sy'n lleihau gallu pobl i gyrchu gwasanaethau y mae eraill mewn ardaloedd mwy trefol yn eu mwynhau.

Gallai'r Corff Llywodraethu ystyried cynyddu ei incwm trwy, er enghraifft, gynnig safle teithiol ar gyfer carafannau yn ystod yr haf, yn ogystal â gweithgareddau twristiaeth eraill.

Mae'r canlynol yn syniad seiliedig ar bolisi mewn perthynas ag Addysg:

- Ar gampws Ysgol Bro Teifi, yn ystod oriau nad ydynt yn oriau ysgol, mae yna botensial i wella mynediad at nifer o gyfleoedd dysgu cymunedol gwahanol, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a fyddai'n annog cyfranogiad lleol ac o'r tu allan i'r dref.




Blaenoriaethau economaidd Llandysul

#### 4.5.3 Hyrwyddo a Rheoli

Ni fydd gweithredu'r llu o ddyheadau a amlinellir yn y Cynllun Bro hwn yn digwydd dros nos, ac ni fyddai hynny'n bosibl. Bydd angen cryn dipyn o waith o ran cynllunio, cydosod tir, nodi ffrydiau ariannu, gwthio prosiectau i broffiliau gwariant cyfalaf y Cyngor Sir, llenwi ceisiadau, ac ati.

Mae yna lawer o gamau i'w cymryd, a bydd hyd yn oed mwy o ymgynghori yn ofynnol er mwyn symud unrhyw gynllun yn ei flaen. Bydd angen blaenoriaethu'r cynlluniau hyn yn unol ag unrhyw ffynonellau ariannu posibl a ddaw i'r amlwg yn ystod datblygiad y weledigaeth gymunedol hon.

Bydd angen nodi unigolion, sefydliadau a grwpiau cydweithredol i gyflawni'r cynlluniau posibl hyn, a darparu cymorth iddynt. Bydd yn ofynnol creu cynllun gweithredu ac iddo gerrig milltir fel y gellir rhoi gwybodaeth i'r gymuned am gynnydd yn unol â'r amcanion, a bydd angen sefydlu grŵp rheoli i arwain a hyrwyddo'r dyheadau sy'n deillio o'r Cynllun Bro hwn.

#### 4.5.4 Camau Gweithredu

- Cynnal digwyddiadau a gweithgareddau dysgu cymunedol yn Ysgol Dyffryn Teifi yn ystod y tairblynedd nesaf.

Fel yr eglurwyd yn flaenorol, mae'r hen ysgol uwchradd hon yn ased allweddol i Landysul, ac mae angen iddi gael ei defnyddio'n llawn i fod yn ganolfan dysgu a sgiliau ehangach i'r dref a'i chefnwlad. Gall uwchsgilio pobl arwain at well gobaith o swyddi, ond mae angen addysgu teuluoedd hefyd, ac yn enwedig addysgu'r grefft o wneud prydau bwyd da, maethlon i bobl ifanc. Rhaid darparu gwybodaeth ddiduedd, er enghraifft am yr atebion gorau i oresgyn y cynnydd enfawr yng nghostau ynni, ac am deithio ar y cyd i'r gwaith, ac ati. Gall y mathau hyn o atebion arwain at well ffyniant ac annibyniaeth i bobl a theuluoedd.

#### 4.5.5 Polisïau'r Economi a Chysylltiadau

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Policies | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| ec-01 | Cefnogir cynigion sy'n cyfrannu at y defnydd o'r Gymraeg ac sy'n cefnogi'r nod llesiant 'lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 Canlyniad 4: Cymru gyda'i phobl yn byw mewn mannau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Ceredigion 2024-2029. |



1



2

1. Llyn artiffisial Llandysul Paddlers ar gyfer addysgu sgiliau awyr agored

2. Safle Ysgol Uwchradd Dyffryn Teifi gynt, gyda'r cyfleusterau gweithdy mewn defnydd ar hyn o bryd



# Yr Amgylchedd

#### 4.6.1 Trosolwg

Heb os, mae newid yn yr hinsawdd yn fygythiad i'r gymuned. Cafodd cymuned leol Llandysul ei difrodi yn ystod Storm Callum bedair blynedd yn ôl. Bu yna sawl achos o lifogydd ers y digwyddiad hwnnw ond roedd eu heffaith yn llai. Fodd bynnag, mae pobl ar bigau drain yn achos pob cyhoeddiad ynghylch y posibilrwydd y bydd Afon Teifi yn gorlifo ei glannau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'r ddau Awdurdod Lleol o boptu'r afon, wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu astudiaethau ynghylch y posibilrwydd o liniaru a lleihau'r llifogydd. Bydd achos busnes yn ofynnol bellach, a bydd angen iddo gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn caniatáu i unrhyw gynllun fynd yn ei flaen.

O ran teithio cynaliadwy, mae gan Landysul amgylchedd naturiol ardderchog, ac mae yna botensial i'w ddefnyddio i ddarparu cymorth ar gyfer cyfleoedd gwaith mewn gweithgareddau chwaraeon ac afon. Mae'r Cyngor Sir wedi comisiynu ymgynghorwyr ar wyrddu trefi, a bydd llawer o gyfleoedd yn dod ar gael, gyda chymorth asiantaethau amrywiol, i gyflawni'r canlyniadau dymunol hyn. Un cynnig cyffrous yw creu croesfan afon o gaeau Tirdref i gyfleuster Llandysul Paddlers gerllaw. Bydd pont o'r fath yn creu llwybr cylchol sy'n uno'r ddau awdurdod sir, a bydd yn sicrhau rhagor o gyfleoedd ar gyfer mwynhau ein meysydd chwarae a'r llyn artiffisial a'i amgylchedd diogel, lle gall pobl ifanc gael eu cyflwyno i ganŵio a chwaraeon cychod dŵr.

Mae'r parc coffa a chaeau Tirdref, ynghyd â'r tir o amgylch cyfleuster y Padlwyr, yn rhoi cyfle gwych i wella amwynder sydd â mannau agored helaeth, a hynny trwy ddarparu gwell mannau gwyrdd, mannau picnic a chyfleusterau hamdden cyffredinol. Gallai cyfleuster y Padlwyr hefyd ddarparu lleoliad ar gyfer carafannau teithiol ac i wersylla yn ystod tymor yr haf. Mae yna ddigonedd o gyfleoedd i wella a gwyrddu'r amgylchedd trwy blannu coed addas a gosod llwybrau beicio, elfennau a fydd yn hyrwyddo'r arlwy i breswylwyr a thwristiaid ymhellach.


#### 4.6.2 Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Gellid datblygu cynllun ar hyd y llwybr troed ar lan yr afon sy'n arwain o Bont Llandysul i ardal y chwarel ym mhen y llwybr. Byddai hyn yn darparu taith gerdded hyfryd i breswylwyr a thwristiaid fel ei gilydd. Byddai'r miloedd o badlwyr sy'n cydgyfarfod yn Llandysul trwy gydol y flwyddyn yn elwa'n sylweddol o gynllun o'r fath, yn enwedig yn nhymor y gaeaf pan fo'r llwybr yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Gallai'r prosiect gynnwys seddau, gweithiau celf/cerfluniau, goleuadau priodol, gwell ardal bicnic/barbeciw ac arwyneb tarmac/concrit i'r llwybr troed. Gellid codi pont droed ym mhen y llwybr, a fyddai'n cysylltu â maes parcio tafarn yr Half Moon; o wneud hyn, byddai taith gylchol ddeniadol arall yn cael ei ffurfio, taith a fyddai'n cysylltu'r ddau Awdurdod Sirol ac yn gwneud llawer i ddarparu hamdden awyr agored iach i hybu llesiant a ffyrdd iachach o fyw. Byddai cymorth a mewnbwn proffesiynol yn ofynnol ar gyfer y cynnig hwn er mwyn datblygu'r cynnig a fyddai'n arwain at ymgynghoriad pellach.

Yn Llandysul, y Parc Coffa a chaeau Tirdref yw'r hyn sy'n cyfateb i faes y pentref. Gellid gwneud y parcdiroedd yn fwy deniadol trwy ymgorffori, er enghraifft, gwelyau blodau a phlanhigion megis llwyni, perthi a choed. Fodd bynnag, ni ddylem anghofio mai gwirfoddolwyr sy'n rheoli'r cyfleuster cymunedol rhagorol hwn. Mae yna botensial yn bodoli yn y lleoliad hwn hefyd i ddarparu pont droed dros Afon Teifi. Byddai hon yn cysylltu â llwybr troed caniataol yn y sir gyfagos, gan ffurfio taith gylchol a fyddai o fudd i'n cymuned ac ymwelwyr, fel ei gilydd.

Yn yr un modd, gellid creu man gwyrdd neu barcdir ar ran o hen gaeau chwarae Ysgol Dyffryn Teifi i ddiwallu anghenion preswylwyr yr ardal honno. Mae'r canlynol yn nifer o syniadau seiliedig ar bolisi ar gyfer gwella'r amgylchedd naturiol:

- Mae cyllid posibl ar gyfer rhandiroedd ar gael trwy becyn cymorth a ddarperir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- Dynodwyd safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt (er bod hwn bellach mewn dwylo preifat) yn lleoliad posibl ar gyfer darparu rhandiroedd yn Llandysul. Byddai'r rhandiroedd yn gwella'r amgylchedd naturiol ac yn cynyddu nifer y mannau agored.
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, trwy nifer o gynlluniau gwahanol, yn cynnig cymorth ar gyfer creu coetiroedd newydd a phlannu coed.




Blaenoriaethau amgylcheddol Llandysul

> Mae gan Landysul amgylchedd naturiol ardderchog, ac mae yna botensial i'w ddefnyddio i ddarparu cymorth ar gyfer cyfleoedd gwaith.

- Byddai creu parc ar hyd ymyl y ffordd ym Mharc yr Ynn a'r Ffawydd, a phlannu coed ynddo, yn gwella'r ddarpariaeth o ran mannau agored yn Llandysul, yn darparu gofodau hamdden i breswylwyr, ac yn gwella bioamrywiaeth a'r cysylltiadau rhwng cynefinoedd yn y dref.

**4.6.3 Llifogydd**

Roedd effaith Storm Callum ar Landysul a Phont-tyweli yn 2018 yn sylweddol, ac nid yw rhai mentrau ac eiddo domestig wedi adfer yn llwyr o'r digwyddiad o hyd.

Mae angen annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ddau Awdurdod Lleol i roi gwybod i ddinasyddion y ddwy gymuned hyn am y camau y maent yn eu cymryd i liniaru digwyddiad o'r fath yn y dyfodol, ynghyd â darparu cymorth grant i gynorthwyo preswylwyr gyda'u hamddiffynfeydd llifogydd cyfyngedig eu hunain.

Mae Cyngor Cymuned Llandysul yn datblygu cynllun llifogydd lleol i gynorthwyo preswylwyr a busnesau pe ceid digwyddiad o'r fath eto yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae yna gynllun ar waith sy'n sicrhau nad oes rhaid i unrhyw eiddo domestig fod heb yswiriant llifogydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am fentrau neu fusnesau cymunedol. Rhaid lobïo Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau bod cynllun tebyg ar gael i'r grwpiau hyn.

**4.6.4 Seilwaith Gwyrdd**

Mae ffynonellau cyllid posibl ar gyfer gwella llwybrau beicio ar gael o Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

Byddai cysylltu Llandysul uchaf ac isaf, o Ysgol Bro Teifi i lawr at yr afon, trwy gyfrwng llwybr beiciau ac iddo arwyneb newydd, yn gwella mynediad i feicwyr, cerddwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Byddai hyn yn lleihau dibyniaeth preswylwyr lleol ar geir i deithio, gan ostwng allyriadau carbon.

Bydd darparu mannau gwefru cerbydau trydan mewn sawl lleoliad ledled y dref yn annog ymwelwyr â cherbydau trydan.

Mae cyllid posibl ar gyfer rhandiroedd ar gael trwy becyn cymorth a ddarperir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol sy'n gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, tra bo cyllid ar gyfer plannu coed a choetiroedd ar gael trwy nifer o gynlluniau gwahanol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
Bydd plannu coed a gwyrddu ledled y dref, sy'n cynnwys ychwanegu parciau a rhandiroedd, yn gwella safon yr aer ac yn helpu i leihau dŵr wyneb ffo.

**4.6.5 Newid yn yr Hinsawdd**

Bydd angen i'r pwnc hwn fod wrth wraidd datblygiad yn y dyfodol. Mae sefydliadau eisoes yn ymateb i'r her trwy gymryd camau i liniaru dibyniaeth y dref ar hen fathau o ynni.

Mae menter Calon Tysul yn ymchwilio i botensial system boeler newydd i weithredu anghenion ynni'r pwll nofio a'r ganolfan hamdden, gan gynnwys gosod paneli solar yn y to.

Mae Gwasg Gomer, sy'n gwmni preifat, yn dechrau ar brosiect mawr i leihau ei gostau ynni uchel a'i ôl troed carbon mewn perthynas â'i ddefnydd o ynni, a hynny trwy neilltuo arwynebedd to'r busnes i osod paneli solar.

Mae Llandysul Pont-tyweli Ymlaen, a'i gwmni trafnidiaeth gymunedol, Dolen Teifi, newydd gael cerbyd trydan, a hynny gyda chymorth caredig prosiect fferm wynt Brechfa. Mae ganddo hefyd gais yn yr arfaeth ar gyfer darparu tri cherbyd trydan i liniaru ynysigrwydd a gwella mynediad at wasanaethau yn y gefnwlad. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys darparu mannau gwefru mewn partneriaeth â Cwmni Ynni Caerfyrddin.

Codwyd Ysgol Bro Teifi i'r safonau BREAM uchaf. Mae Canolfan Bwyd Cymru Horeb wedi cael ei hôl-osod â phaneli solar i leihau ei chostau ynni.

Rhaid cael cefnogaeth yr AC a lobïo Llywodraeth Cymru i ddethol Llandysul yn ganolfan teithio llesol, ac i annog gwasanaethau bws gwell a mwy rheolaidd. Byddai creu rhagor o lwybrau beicio yn annog ffyrdd iachach o fyw ac yn cysylltu'r parthau addysg a chyflogaeth â chraidd y dref.

Rhaid hefyd archwilio'r broses o hyrwyddo a datblygu cynllun amcanion rhannu ceir.

**4.6.5 Camau Gweithredu**

- Darparu rhandiroedd newydd ar safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt/yn Llandysul isaf yn ystod y tair blynedd nesaf.
- Darparu llwybr beiciau o Ysgol Bro Teifi hyd at yr afon yn ystod y tair blynedd nesaf.
- Plannu coed i wyrddu a gwella'r cysylltiadau rhwng cynefinoedd yn ystod y tair blynedd nesaf.

Roedd yr ymgyngoreion yn gyson glir ynghylch yr effaith y mae eu bywydau yn ei chael ar yr amgylchedd, ynghyd â phroblemau megis cynhesu byd-eang a'r newid yn yr hinsawdd. Felly roedd lleoliaeth a'r awydd i gefnogi busnesau lleol a phrynu ganddynt yn faterion eithaf amlwg. Gall mynd ati i dyfu eich ffrwythau a'ch llysiau eich hun fod yn foddhaol nid yn unig o safbwynt maeth ond hefyd o safbwynt llesiant. Gall pryderon ddiflannu pan fyddir yn ymgolli mewn garddio. Mae iddo hefyd y fantais o feithrin cyfeillgarwch a sgiliau ar yr un pryd. Mae prosiect yr Ardd sydd wedi'i leoli ym Mhont-tyweli wedi datblygu'n dda, a gellid datblygu cynllun tebyg ar gae chwarae'r hen Ysgol Dyffryn Teifi. Bydd creu man gwyrdd cyhoeddus sy'n cynnwys cyfleoedd chwarae ar gyfer yr ifanc hefyd yn sicrhau budd mawr i'w ddefnyddwyr a'i grewyr, gan roi naws am le a hunaniaeth ar gyfer yr ardal honno o'r gymuned. Bydd plannu coed a llwyni yn yr ardal hon yn ychwanegu rhagor at y darn tir hwn sy'n blaen ar hyn o bryd.

Mae yna lu o lwybrau troed yn agos at y dref, a bydd creu llwybr beiciau o'r Ysgol Dyffryn Teifi gynt, trwy Caeau Bach i ben isaf y dref, yn creu mynediad diogel sy'n bellach i ffwrdd o'r briffordd.

**4.6.6 Polisïau'r Amgylchedd a Chysylltiadau**

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan fydd yn ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwysol: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Ref | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| en-01 | Lle bo ganddynt seilwaith gwyrdd pwysig neu werth cymunedol, cefnogir datblygiadau sy'n darparu rhandiroedd neu fannau tyfu cymunedol newydd neu estyniadau iddynt. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040<br>Polisi 9: Rhwydweithiau ecolegol a seilwaith gwyrdd cadarn<br>LIC TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored<br>Polisi LU22 y CDLl: Darpariaeth Gymunedol Mannau Agored y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)<br>Polisi DM10 y CDLl: Dylunio a Thirlunio. |
| en-02 | Cefnogir cynigion ar gyfer llwybrau cerdded a beicio newydd neu welliannau i rwydweithiau mewn bod (gan gynnwys arwyddion priodol). Rhaid i bob datblygiad newydd ystyried cyflwyno seilwaith teithio llesol newydd neu ehangiad i seilwaith o'r fath, a hwnnw'n gymesur â'r anghenion sy'n codi o'r datblygiad. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040<br>Polisi 12: Cysylltedd Rhanbarthol a Pholisi DM04 y CDLl: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol<br>Polisi DM05 y CDLl: Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio. |
| en-03 | Rhoddir cefnogaeth gref i gyfleoedd i ddarparu a diogelu seilwaith gwyrdd, yn enwedig lle bo yna fuddion cronnol ehangach mewn perthynas â bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040<br>Canlyniad 10: Cymru gyda'i phobl yn byw mewn lleoedd a chanddynt ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig<br>Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 12 Pennod 6: Lleoedd Unigryw a Naturiol<br>Polisi DM20 y CDLl: Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd. |



Llwybr cerdded ar hyd ochr y cwrs ceufadu ar Afon Teifi

### 4.7 Crynodeb o'r Camau Gweithredu a'r Syniadau

Mae'r canlynol yn crynhoi'r camau gweithredu a'r syniadau allweddol mewn ymateb i bob thema ac amcan sy'n datblygu.

Llesiant:

- Hyb awyr agored ar Teras Marmor o fewn y saith mlynedd nesaf, a hynny mewn partneriaeth â manwerthwyr annibynnol a chwmnïau gweithgareddau.
- Parc newydd ar safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt, ac iddo gyfleusterau mannau agored, gan gynnwys rhandiroedd.
- Canolfan iechyd integredig sy'n cynnig deintyddiaeth, optometreg a gwasanaethau cymorth clinigol eraill. Gallai hon hefyd ymgorffori elfen addysg iechyd lle gallai pobl ddysgu sut i goginio prydau maethlon ar gyllideb isel, ystafelloedd ymarfer ar gyfer iechyd da, a chymorth gyda newidiadau mewn perthynas ag iechyd i'w ffordd o fyw.
- Llwybr beiciau ac iddo arwyneb newydd a fydd yn cysylltu Llandysul uchaf, o Ysgol Bro Teifi, â Llandysul isaf i ddarparu gwell mynediad i breswylwyr gerdded a beicio.
- Sgwâr tref sy'n cynnwys seddi, ynghyd â lleoedd ar gyfer marchnadoedd dros dro a digwyddiadau cymunedol eraill. Mae yna botensial i'r sgwâr gael ei leoli ar y safle yn ymyl yr hen Fanc Barclays a hen safle gwaith argraffu Gwasg Gomer.

Creu Lleoedd:

- Ailddefnyddio eiddo gwag ar y Stryd Fawr i ddibenion cymysg, megis siopau dros dro, unedau egin fusnesau, hyb digidol, orielau a gofodau crefft ar y llawr gwaelod, gyda darpariaeth ar gyfer llety preswyl ar y llawr cyntaf.
- Mae gan safle'r hen ysgol ar Teras Marmor y potensial i gael ei ailddefnyddio yn safle ar gyfer nifer o unedau egin fusnesau.

Treftadaeth a Diwylliant:

- Cyflwyno nifer o gyfleoedd dysgu cymunedol gwahanol trwy gyfrwng y Gymraeg ar gampws Ysgol Bro Teifi yn ystod oriau nad ydynt yn oriau ysgol.

Yr Economi:

- Trawsnewid Capel y Tabernacl yn ganolfan gofal dydd o fewn y tair blynedd nesaf.
- Darparu dosbarthiadau nos ar draws ystod o ddisgyblaethau i ddiwallu anghenion ehangach y gymuned a helpu i uwchsgilio dinasyddion.
- Datblygu llwybr troed o ymyl ogleddol y dref, yn Stryd y Ffynnon, i Ysgol Bro Teifi a'r parc busnes a menter ychydig y tu hwnt.
- Cynnig safle teithiol ar gyfer gwersylla a charafanio tymhorol, yn ogystal â gweithgareddau twristiaeth eraill.

Yr Amgylchedd:

- Datblygu llwybr troed sy'n arwain o Bont Llandysul i ardal y chwarel ym mhen y llwybr.
- Adeiladu pont wrth faes parcio tafarn yr Half Moon i greu cylchdaith a fydd yn cysylltu'r ddau Awdurdod Sirol.
- Buddsoddi mewn ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer y ganolfan hamdden gymunedol.
- Darparu rhandiroedd newydd ar safle Ysgol Dyffryn Teifi gynt/yn Llandysul isaf o fewn y tair blynedd nesaf.
- Darparu llwybr beicio o Ysgol Bro Teifi i'r afon o fewn y tair blynedd nesaf.
- Plannu coed i wyrddu ardaloedd a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd o fewn y tair blynedd nesaf.



Cyrraedd y Stryd Fawr o'r gogledd-ddwyrain

Allwedd:

Safleoedd a nodwyd o fewn y Cynllun Bro

— Ffin yr anheddiad

— Ffin y safle

1. Afon Teifi
   Hamdden/twristiaeth

2. Llandysul Paddlers
   Hamdden/twristiaeth

3. Y Parc Coffa
   Hamdden/diwylliant a threftadaeth hanesyddol

4. Caeau Tirdref
   Hamdden

5. Y Pwerdy
   Canolfan celfyddydau cymunedol

6. Ystad y Ffawydd
   Gwyrddu a chysylltiad rhwng cynefinoedd

7. Ystad Parc yr Ynn
   Gwyrddu a chysylltiad rhwng cynefinoedd

8. Hen safle Gwasg gomer
   Sgwâr y Dref

9. Ysgol Dyffryn Teifi (ynghau)
   Cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg

10. Ysgol gynradd Llandysul (ynghau)
    Cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg

11. Meddygfa Llyn y Frân
    Darpariaeth gofal iechyd

12. Pont Llandysul
    Estyn llwybr glan yr afon i'r chwarel

13. Yr hen ysgol, Teras Marmor
    Canolfan awyr agored/ eginfusnesau/manwerthu

14. Capel y Tabernacl
    Cynnig gofal dydd

15. Eglwys Sant Tysul
    Adnewyddu'r prif dŵr/lefel ychwanegol ar ffurf llawr mesanîn

16. Canolfan Hamdden Calon Tysul
    Ynni cynaliadwy/ adnewyddadwy

17. Pont newydd
    O faes parcio'r Half Moon i lwybr y chwarel

18. Pont newydd
    Caeau Tirdref i Llandysul Paddlers

19. Caeau chwarae Ysgol Dyffryn Teifi gynt
    Cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg

Safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol


Dyraniadau Tai

A. Y tu ôl i'r Ffawydd - H0601

Dyraniadau Cyflogaeth

B. Parc Menter Llandysul - E0601

C. Parc Busnes Horeb – E0602k - E0602






Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government